

Rhif ymchwil gymdeithasol: 41/2025

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2025

Ymddygiadau sy'n Herio ac yn Tarfu mewn Ysgolion Ar Draws Cymru: Strategaethau a Lliniariadau Effeithiol (2025)



Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.

This document is also available in English.

Ymddygiadau sy'n Herio ac yn Tarfu mewn Ysgolion Ar Draws Cymru: Strategaethau a Lliniariadau Effeithiol (2025)

Awduron: Dr Amy-Hulson-Jones^{1,4}, Dr Millie-Blandford-Elliot¹, Dr Margiad Williams¹, Dr Maggie Hoerger¹, Dr Richard May³, Dr Emily Groves³, Dr Adina Grigorie¹, Dr Richard C. Watkins^{1,2}, Dr Steve Noone¹ & Professor J. Carl Hughes¹

¹Sefydliad Cydweithredol ar gyfer Ymchwil, Tystiolaeth ac Effaith Addysg (CIEREI), Prifysgol Bangor

²Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru (GwE)

³Cyfadrn Gwyddorau Bywyd ac Addysg, Grŵp Ymchwil ac Arloesi Seicoleg Gymhwysol, Prifysgol De Cymru

⁴Athro Ymgynghorol Cymorth Allgymorth, Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU)

Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR41/2025.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ymddygiadau-syn-herio-ac-yn-tarfu-ar-erail-mewn-ysgolion-ar-draws-cymru-2025>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Ymchwil Ysgolion

Adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays
Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@Llyw.Cymru

Tabl cynnwys

Ymddygiadau sy'n Herio ac yn Tarfu mewn Ysgolion Ar Draws Cymru:

Strategaethau a Lliniariadau Effeithiol (2025)	1
Geirfa	2
Cyflwyniad	7
Cyd-destun Damcaniaethol	17
Nodau'r ymchwil	25
Dulliau a Rhesymeg	26
Canfyddiadau	31
Trafodaeth	53
Cyfyngiadau	57
Argymhellion.....	58
Cyfeirnodau	62
Atodiad	73
Atodiad 1 Adolygiad Cyflym – methodoleg fanwl	73
Atodiad 2. Adolygiad cyflym – Y meini prawf cynhwysiant ac eithrio	77
Atodiad 3. Adolygiad cyflym – Y termau chwilio.....	78
Atodiad 4. Adolygiad cyflym – Sgôr ansawdd	80
Atodiad 5. Amserlen cyfweliadau.....	81
Atodiad 6. Amserlen y grŵp ffocws.....	90
Atodiad 7. Tabl o nodweddion	92
Atodiad 8. Mesurau canlyniad.....	96

Geirfa

AAA

Anghenion Addysgol Arbennig – Mae hyn yn cyfeirio at ddisgyblion ag anawsterau dysgu neu anableddau sydd angen darpariaethau addysgol arbennig. Sylwer: Nid yw'r term "AAA" yn cael ei ddefnyddio bellach yn system addysg Cymru, ar ôl cael ei ddisodli gan "Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)" o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

AALI

Awdurdod Addysg Lleol – Cyrff llywodraethu rhanbarthol sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg o fewn ardal benodol.

ACE

Diffinnir Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod fel profiadau trawmatig neu llawn straen sy'n digwydd yn ystod plentyndod, a all niweidio plentyn yn uniongyrchol neu effeithio ar yr amgylchedd y mae'n byw ynddo.

ADS

Atgyfeiriad Disgyblu Swyddfa – Yn cyfeirio at gofnod ffurfiol o ddigwyddiadau ymddygiad myfyrwyr sy'n gofyn am ymyrraeth gan weinyddwyr ysgol, a ddefnyddir yn aml i olrhain patrymau a llywio strategaethau rheoli ymddygiad.

ADY

Anghenion Dysgu Ychwanegol – Yn cyfeirio at ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i gael mynediad at addysg oherwydd anawsterau dysgu neu anableddau.

ALNET

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg – Cyfraith yng Nghymru sy'n nodi'r fframwaith statudol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY, gan ddisodli'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) flaenorol.

CAU

Cynllun Addysg Unigol – Cynllun personol a ddatblygwyd ar gyfer myfyrwyr ADY, yn amlinellu cefnogaeth wedi'i theilwra, nodau dysgu, a strategaethau i sicrhau eu bod yn derbyn darpariaeth addysgol briodol.

CCE

Cwricwlwm Cymdeithasol ac Emosiynol – Rhaglen strwythuredig sydd wedi'i hintegreiddio i addysg ysgol sy'n anelu at ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol myfyrwyr, fel hunanymwybyddiaeth, rheoleiddio emosiynol, a sgiliau rhyngpersonol.

CDU

Mae Cynllun Datblygu Unigol yn gynllun statudol a gynhelir gan ysgol, UCD, SAB neu awdurdod lleol sy'n nodi disgrifiad o ADY plentyn neu berson ifanc, y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae ei hanhawster dysgu neu anabledd yn galw amdani, a gwybodaeth gysylltiedig arall. Mae CDU yn disodli Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

CES

Graddfa Amgylchedd yr Ystafell Ddosbarth – Offeryn a ddefnyddir i werthuso hinsawdd yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys perthnasoedd myfyrwyr, cefnogaeth athrawon, ac amgylchedd dysgu cyffredinol, i lywio ymdrechion i wella ysgolion.

CHKS

Arolwg Plant Iach California – Arolwg myfyrwyr cynhwysfawr sy'n asesu hinsawdd yr ysgol, ymddygiadau iechyd, a lles myfyrwyr i gefnogi mentrau gwella ysgolion a datblygu ieuenctid.

CYC

Mae Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol yn "fframwaith aml-elfen ar gyfer datblygu dealltwriaeth o'r ymddygiad heriol a ddangosir gan unigolyn, yn seiliedig ar asesiad o'r amgylchedd cymdeithasol a ffisegol a'r cyd-destun ehangach y mae'n digwydd ynddo, ac sy'n ymgorffori safbwyntiau a chyfranogiad rhanddeiliaid." Gore et al. (2013).

DDdY

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol – Cymorth addysgol arbenigol a ddarperir i blant a phobl ifanc ag ADY i'w helpu i gael mynediad at y cwricwlwm a chyflawni eu potensial llawn.

DPP

Datblygiad Proffesiynol Parhaus – Cyfleoedd hyfforddi a dysgu parhaus i athrawon wella eu sgiliau a'u gwybodaeth.

ESYTC

Astudiaeth Caeredin o Droseddau a Throseddu leuenctid – Astudiaeth ymchwil hydredol sy'n archwilio llwybrau i mewn ac allan o droseddu ymhlith pobl ifanc yn yr Alban, gan ganolbwyntio ar ffactorau cymdeithasol, addysgol ac ymddygiadol.

Fframwaith STAR

Eisteddwch i fyny, Dilynwch y siaradwr, Gofynnwch ac atebwch gwestiynau, a Pharchwch eraill – Strategaeth rheoli ac ymgysylltu yn yr ystafell ddosbarth a gynlluniwyd i hyrwyddo cyfranogiad gweithredol, sylwgarwch, ac ymddygiad parchus ymhlith myfyrwyr.

GBS

Graddfa Bwlio Gatehouse – Offeryn dilys a ddefnyddir i fesur nifer ac effaith bwlio mewn ysgolion, gan asesu profiadau myfyrwyr o ddioddef a chyflawni'r drosedd.

Hinsawdd Ysgol

Hinsawdd Ysgol – Ansawdd a chymeriad cyffredinol bywyd ysgol, gan gwmpasu ffactorau megis perthnasoedd, diogelwch, arferion addysgu a dysgu, a'r amgylchedd corfforol ac emosiynol. Mae'n dylanwadu ar lesiant a chyflawniad academiaidd myfyrwyr.

ISS

Gohiriadau o fewn Ysgol – Cam disgyblu lle mae myfyrwyr yn cael eu tynnu o ddosbarthiadau rheolaidd ond yn aros yn yr ysgol i gwblhau gwaith academiaidd dan oruchwyliaeth.

OSS

Gwaharddiadau y Tu Allan i'r Ysgol – Cam disgyblu sy'n tynnu myfyrwyr dros dro o amgylchedd yr ysgol oherwydd troseddau ymddygiadol difrifol, sy'n eu cyfyngu rhag mynychu dosbarthiadau am gyfnod penodol.

PECS

System Gyfathrebu Cyfnewid Lluniau – Offeryn cyfathrebu wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion ag anawsterau lleferydd ac iaith, gan eu galluogi i ddefnyddio lluniau i fynegi eu hanghenion a datblygu sgiliau cyfathrebu swyddogaethol.

SAU

Sefydliadau Addysg Uwch – Prifysgolion a cholegau sy'n darparu addysg uwch ac yn cynnal ymchwil.

SSS

Arolwg Diogelwch Ysgol – Offeryn a ddefnyddir i asesu canfyddiadau o ddiogelwch mewn ysgolion, gan fesur ffactorau fel bwlio, trais, a hinsawdd gyffredinol yr ysgol.

SWPBS/PBIS/ SWPBIS

Mae Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol Ysgol-gyfan (SWPBS), a elwir hefyd yn Ymyriadau a Chymorth Ymddygiad Cadarnhaol (PBIS), neu Ymyriadau a Chymorth Ymddygiad Cadarnhaol Ysgol-gyfan (SWPBIS), yn ddull aml-haen o adeiladu amgylcheddau ysgol cadarnhaol i bob disgybl a staff o fewn cymuned ysgol.

TCA

Mae dadansoddi cynnwys thematig yn ddull ymchwil ansoddol a ddefnyddir i nodi, dadansoddi a dehongli patrymau o fewn data testunol. Mae'n cynnwys codio data'n systematig, grwpio cysyniadau tebyg, a chael mewnwelediadau ystyrlon yn seiliedig ar syniadau neu naratifau sy'n codi dro ar ôl tro.

TOCA-C

Arsylwi Athrawon ar Addasu yn yr Ystafell Ddosbarth – Rhestr Wirio – Offeryn asesu wedi'i raddio gan athrawon a ddefnyddir i werthuso addasiad cymdeithasol ac ymddygiadol myfyrwyr yn yr ystafell ddosbarth, gan helpu i nodi'r rhai sydd mewn perygl o anawsterau ymddygiad.

UCD

Uned Cyfeirio Disgyblion – Math o ysgol yn y DU ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gallu mynychu ysgolion prif ffrwd neu ysgolion arbennig

WSAEMW

Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol – Strategaeth ysgol gyfan sy'n integreiddio iechyd meddwl a llesiant emosiynol i'r cwricwlwm, polisïau ac arferion dyddiol i greu amgylchedd dysgu cefnogol i bob myfyriwr.

Cydnabyddiaethau

Ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl heb gyfraniadau gwerthfawr nifer o unigolion a sefydliadau. Hoffem estyn ein diolch i'r athrawon, yr Awdurdod Lleol (ALI) a chynrychiolwyr Estyn a rannodd eu hamser, eu profiadau a'u mewnwelediadau'n hael drwy gyfweiliadau lled-strwythuredig a grwpiau ffocws. Bu eu profiadau a'u safbwyntiau yn allweddol wrth lunio'r canfyddiadau a'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Hoffem hefyd fynegi ein diolchgarwch i aelodau'r panel cynghori, y bu eu harweiniad a'u harbenigedd yn gymorth i lywio'r prosiect drwy gydol ei wahanol gamau. Roedd eu hadborth meddylgar a'u hymrwymiad i amcanion y prosiect yn amhrisiadwy.

Yn olaf, rydym yn estyn ein gwerthfawrogiad i gydweithwyr Llywodraeth Cymru a gefnogodd y gwaith hwn, gan gynnig mewnwelediadau hanfodol a sicrhau aliniad â blaenoriaethau addysgol ehangach yng Nghymru. Mae eu cydweithrediad a'u cefnogaeth wedi bod yn hanfodol wrth gwblhau'r adroddiad hwn.

Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r cyd-destun byd-eang, y DU a Chymru benodol sy'n ymwneud ag ymddygiadau sy'n herio ac yn amharu ar ysgolion. Mae'n manylu ar effaith ymddygiadau sy'n herio ar ddysgwyr, staff, ysgolion, a chymdeithas ehangach. Mae'n cynnig trosolwg o fframweithiau damcaniaethol cyfredol sy'n pwysleisio pwysigrwydd deall ymddygiad mewn ysgolion o safbwynt cyfannol a chyd-destunol. Mae'n gorffen gyda chanllawiau cyfredol ar ddulliau ysgol gyfan ac ystafell ddosbarth o adeiladu amgylcheddau meithringar ac sy'n galluogi sydd yn ei dro yn cefnogi ymddygiadau cymdeithasol cadarnhaol ac yn helpu i leihau nifer yr achosion o ymddygiadau heriol.

Ymddygiad a Hinsawdd yr Ysgol ar ôl y Pandemig: Mewnwelediadau o'r DU a Thu Hwnt

Ers gwanwyn 2023, mae'r Gangen Ymchwil Ysgolion o fewn Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi wedi ymchwilio i effeithiau hirdymor pandemig coronavirus (COVID-19) COVID-19 ar ddysgwyr. Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn tynnu sylw nid yn unig at yr effeithiau parhaol ar lesiant ac ymddygiad dysgwyr, ond hefyd at y ffyrdd y mae ysgolion ledled Cymru wedi addasu ac yn parhau i fireinio eu dulliau — gwneud addasiadau rhesymol ac ymatebol gan ystyried anghenion cyfnewidiol dysgwyr.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar systemau addysg ledled y byd. Mae astudiaethau o wahanol wledydd wedi adrodd am broblemau sy'n ymwneud ag ymddygiad ac iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn cyfnodau hir o gyfyngiadau symud ac amhariad (UNESCO, 2022; OECD, 2022). Mae'r heriau hyn wedi bod yn arbennig o amlwg ymhlith grwpiau sy'n fregus, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig a myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (UNESCO, 2022; OECD, 2022).

Mewn ysgolion yn y DU, mae ymddygiadau heriol yn cyfeirio at ymddygiad dysgwyr sy'n tarfu ar addysgu, yn tanseilio dysgu, neu'n peri risg i'ch diogelwch neu les eich hunan neu eraill. Mae ymddygiad o'r fath fel arfer yn mynd y tu hwnt i ffiniau camymddwyn sy'n briodol i'w oedran o ran ei ddwysedd, amllder neu ddyfalbarhad, a gall ymyrryd â datblygiad a dysgu'r dysgwr ei hun, ei berthnasoedd a'i ddysgu â chyfoedion, neu weithrediad amgylchedd ehangach yr ysgol.

Mae'r llenyddiaeth gyfredol yn cytuno nad yw'n ddefnyddiol ystyried ymddygiad sy'n herio fel rhywbeth bwriadol neu wrthwynebol; yn hytrach dylid ei ddeall fel rhywbeth sy'n adlewyrchu anghenion heb eu diwallu, trallod, neu ddiffyg sgiliau ac adnoddau priodol yn yr amgylchedd uniongyrchol. Y ffordd orau o'i ddeall yw'n gyfannol, ac yn gyd-destunol, fel un sy'n cyflawni swyddogaeth bwysig i ddisgybl, gan gyfeirio at broffil datblygiadol y dysgwr, ei gyflwr emosiynol, a dylanwadau ecolegol ehangach (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, 2007; Biglan et al., 2012;

Cogan et al., 2025; Llywodraeth Cymru, 2022). Gall yr ymddygiadau hyn fod yn gysylltiedig ag anghenion ychwanegol cymdeithasol, emosiynol neu niwro ddatblygiadol sylfaenol ac mae angen cyd-destunau arnynt sy'n galluogi cefnogaeth ofalus, berthynol, ac sy'n cael ei lywio gan dystiolaeth.

Mae cydnabod rôl adfyd gynnar hefyd yn hanfodol i ddeall ymddygiad heriol. Mae Llywodraeth Cymru (2021) wedi pwysleisio effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) ar lesiant emosiynol, datblygiad ac ymddygiad mewn lleoliadau ysgol. Trwy fentrau fel yr Hwb Cymorth ACE a'r rhaglen 'Plant yn Gyntaf', mae wedi tynnu sylw at yr angen am wasanaethau cyhoeddus sy'n ymwybodol o ACE, ymyrraeth gynnar a ffocws ar feithrin gwydnwch. Mae cydnabod effeithiau trawma cynnar yn helpu ysgolion i fabwysiadu dulliau mwy tosturiol ac ataliol, wedi'u halinio ag ymdrechion ehangach i greu amgylcheddau meithringar a chynhwysol (Llywodraeth Cymru, 2021).

O safbwynt gwyddor ymddygiad, nid yw ymddygiad yn nodwedd sefydlog nac yn weithred ynysig ond dylid ei ddeall fel rhywbeth sy'n gwasanaethu pwrpas (neu swyddogaeth) i unigolyn wrth iddynt ryngweithio â'r gofynion a'r cyfleoedd sydd ar gael ar unrhyw adeg benodol ac yn cael eu dylanwadu'n barhaus gan y cyd-destun y mae'n digwydd ynddo (Hayes et al., 2012; Biglan et al., 2012). O fewn lleoliadau ysgol, mae hyn yn golygu bod ymddygiad disgyblion yn cael ei ystyried yn gynnyrch yr amgylchedd cymdeithasol, emosiynol, diwylliannol a chorfforol lle mae'n digwydd. Mae gwyddor ymddygiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd nodi pwrpas (neu swyddogaeth) ymddygiad, er mwyn cefnogi datblygiad ystod ehangach o ymatebion hyblyg, o fewn cyd-destun sy'n feithringar yn seicolegol, wedi'i alinio â gwerthoedd craidd ac sy'n atgyfnerthu ymddygiadau cymdeithasol (Biglan, 2015; Hayes a Ciarrochi, 2015; Horner a Sugai, 2015). Mae'r ddealltwriaeth gyd-destunol hon yn arbennig o ddefnyddiol wrth geisio deall ymddygiad sy'n herio mewn lleoliadau addysgol, lle mae ystod o newidynnau yn dylanwadu ar ymddygiad. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai sy'n uniongyrchol, fel hanes y dysgwr o wynebu gofynion a'u gallu i reoli eu trallod emosiynol, ond hefyd dylanwadau ehangach fel perthnasoedd cyfoedion a deinameg ystafell ddosbarth, rhyngweithiadau staff, a ffactorau economaidd-gymdeithasol ehangach.

Gall ymddygiadau sy'n herio mewn lleoliadau addysgol gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: peidio â mynychu'r ysgol dro ar ôl tro neu wrthod mynd i'r ysgol, neu ddianc o'r dosbarth neu dir yr ysgol; amharu ar addysgu a dysgu (e.e. herfeiddiad geiriol parhaus megis gwrthod dilyn cyfarwyddiadau, gweiddi allan, taflu gwrthrychau); ymddygiad ymosodol corfforol neu drais tuag at staff neu gyfoedion (e.e. taro, cicio, brathu), yn ogystal ag ymddygiad cymryd risg (e.e. dringo dodrefn, gweithredoedd anniogel); bwlio ac aflonyddu (gan gynnwys bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth neu fwlio ar-lein, ac ymddygiadau sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n rheoli, yn gorfodi neu'n fygythiol); ac ymddygiad rhywiol neu anaddas. Gall cam-reoleiddio emosiynol — sy'n amlygu fel ffrwydradau neu dynnu'n ôl— effeithio ymhellach ar lesiant staff, cynyddu straen athrawon, a rhoi straen ar berthnasoedd â theuluoedd. Gall ymddygiadau heriol effeithio'n sylweddol ar lesiant staff, gan arwain at fwy o straen a straen ar berthnasoedd â theuluoedd. Yn y pen draw, gall yr ymddygiadau hyn arwain at ddefnydd amlach o waharddiadau, yn rhai parhaol ac am gyfnod penodol.

Diffyg presenoldeb neu wrthod mynychu'r ysgol

Mae mynychu'r ysgol yn ffactor hollbwysig sy'n dylanwadu ar gyflawniad a lles cyffredinol dysgwyr. Yn dilyn pandemig COVID-19, dirywiodd presenoldeb mewn ysgolion ledled Cymru yn sydyn i ddechrau, gan adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol o arferion wedi'u hamharu, pryderon iechyd, ac ymddieithrio o addysg ffurfiol (Llywodraeth Cymru, 2022). Fodd bynnag, mae data mwy diweddar yn dangos cynnydd graddol ym mhresenoldeb disgyblion, gan awgrymu rhywfaint o adferiad mewn ymdrechion ail-ymgysylltu. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25, mae'r gyfradd presenoldeb gyfartalog yn sefyll ar 91.8%, gan adlewyrchu gwelliant cymedrol o 91.3% dros yr un cyfnod yn 2023/24 (Llywodraeth Cymru, 2025).

Er gwaethaf y duedd gadarnhaol hon, mae gwahaniaethau presenoldeb yn parhau, yn enwedig ymhlith dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM¹), sydd â phresenoldeb cyfartalog o 86.8%, o gymharu â 93.5% ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim. Yn ogystal, mae presenoldeb yn gyffredinol yn gostwng wrth i ddysgwyr symud ymlaen trwy'r ysgol, gyda Blwyddyn 11 yn nodi'r presenoldeb cyfartalog isaf sef 88.2%. Salwch yw'r

¹ Er bod gan bob dysgwr cynradd yng Nghymru hawl i gael prydau ysgol am ddim bellach, mae cymhwysedd PYDd yn parhau i gael ei ddefnyddio fel dangosydd dirprwyol o anfantais economaidd-gymdeithasol at ddibenion ystadegol a pholisi.

rheswm a adroddir amlaf dros absenoldeb o hyd, gan gyfrif am 3.5% o'r holl sesiynau (Llywodraeth Cymru, 2025).

Mewn ymateb i'r gostyngiad mewn cyfraddau presenoldeb, sefydlodd Llywodraeth Cymru'r Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol. Rhwng Tachwedd 2023 a Ionawr 2025, darparodd y gweithgor gyfeiriad strategol i wella presenoldeb mewn ysgolion ac ymgysylltiad dysgwyr. Yn ogystal, cynghorodd ar flaenoriaethau i wella presenoldeb, nododd gamau ymarferol, a rhannodd arferion gorau yn seiliedig ar dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol o strategaethau effeithiol.

Er bod ffigurau presenoldeb gwell yn galonogol, gallant guddio rhai o'r heriau dyfnach sy'n effeithio ar ddysgwyr yn yr ysgol. Mae dystiolaeth o'r cyfnod ar ôl y pandemig yn tynnu sylw at gynnydd amlwg mewn anawsterau emosiynol ac ymddygiadol ymhlith plant a phobl ifanc (Comisiynydd Plant Cymru, 2022; Sefydliad Gwaddol Addysg, 2023). Mae llawer o ysgolion ledled Cymru wedi mynegi pryderon ynghylch gallu llai disgyblion i gyfathrebu'n effeithiol a datrys gwrthdaro, gan arwain at gynnydd mewn ymddygiad ymosodol corfforol ac anghydfodau (SchoolBeat, 2023).

Amharu ar addysgu a dysgu

Mae'n ofynnol i ysgolion reoli a lliniaru ymddygiadau sy'n tarfu, gan gynnwys herfeiddiad, ymosodedd a bwlio, sy'n digwydd nid yn unig mewn ystafelloedd dosbarth, ond hefyd ar hyd coridorau, ar y maes chwarae, ac yn ystod darpariaeth oddi ar safle. Rhaid deall hyn yng nghyd-destun ysgolion sy'n wynebu heriau o ran ymddygiad gyda galwadau eraill megis pwysau ariannol, blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, prinder staff, a ffactorau straen cymdeithasol mwy. Gall aflonyddwch lefel isel hefyd effeithio'n negyddol ar ddysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Gall dysgwyr sy'n arddangos ymddygiadau o'r fath brofi tangyflawniad academiaidd, eithrio cymdeithasol, a llai o hunan-barch, yn enwedig os na chaiff eu hanghenion eu diwallu'n ddigonol (Llywodraeth Cymru, 2021). Ar gyfer cyfoedion, mae presenoldeb ymddygiad aflonyddgar parhaus yn y dosbarth wedi bod yn gysylltiedig â mwy o bryder, llai o ganolbwyntio, a llai o gyfleoedd ar gyfer dysgu cydweithredol (Blatchford et al., 2011). Gall yr amodau hyn hefyd feithrin hinsawdd ystafell ddosbarth sy'n amharu ar gymhelliant a pherthnasoedd â

chyfoedion, gan arwain at amgylchedd dysgu llai cynhwysol a chefnogol (Sefydliad Gwaddol Addysg (EEF), 2021).

Ymosodedd corfforol a thrais tuag at gyfoedion neu staff

Mae'r Uned Atal Trais (UAT) wedi dogfennu cynnydd sylweddol mewn trais gan bobl ifanc (UAT, 2023). Mae effaith yr ymddygiadau hyn yn ddwys, yn rhoi straen ychwanegol ar staff a rheolwyr ysgol, yn cynyddu straen a llwyth gwaith, ac yn amharu ar y ffocws ar ddysgwyr eraill. Mae data o adrannau brys De Cymru yn adlewyrchu tuedd barhaus ar i fyny mewn trais sy'n tarddu o leoliadau ysgol, gyda chynnydd o 10% mewn digwyddiadau yn 2021/22 a chynnydd o 29% yn 2022/23 (Llywodraeth Cymru, 2023).

Gall ymddygiad heriol yn yr ystafell ddosbarth amharu'n sylweddol ar yr amgylchedd dysgu, gan rwystro nid yn unig ar gynnydd yr unigolyn sy'n arddangos yr ymddygiad ond hefyd ar gynnydd ei gyfoedion. Gall digwyddiadau o aflonyddwch dro ar ôl tro - megis ffrwydradau geiriol, herfeiddiad, neu ymddygiad ymosodol corfforol - arwain at lai o amser addysgu, arferion dosbarth tameidiog, a mwy o straen ar athrawon, sydd i gyd yn effeithio'n negyddol ar ganlyniadau academiaidd (Ofsted, 2014; EEF, 2019).

Bwlio ac aflonyddu

Mae bwlio, a ddosbarthir fel math o ymddygiad sy'n herio, yn cynrychioli pryder iechyd cyhoeddus byd-eang difrifol (UNESCO, 2019) ac un o'r problemau iechyd meddwl cyhoeddus mwyaf hylaw sy'n wynebu plant a phobl ifanc (Ford, 2014). Nodweddir bwlio gan dair elfen graidd: 1) bwriad bwriadol i niweidio; 2) ailadroddus ei natur; 3) anghydbwysedd grym clir rhwng y troseddwr a'r dioddefwr (Olweus, 1994). Mae bwlio yn ffenomen gymdeithasol sy'n cynnwys prosesau unigol a grŵp (Salmivalli et al., 1996) a dyna pam ei fod yn arbennig o gyffredin mewn cyd-destunau ysgol. Mae'r canlyniadau negyddol i'r rhai sy'n cyflawni bwlio, dioddefwyr, a'r rhai y nodir eu bod yn gyflawnwyr ac yn ddioddefwyr, wedi'u dogfennu'n dda (Vanderbilt ac Augustyn, 2010). Mae astudiaethau poblogaeth o effaith bwlio yn awgrymu y gellir priodoli hyd at 40% o broblemau iechyd meddwl mewn oedolion ifanc, gan gynnwys iselder, pryder a hunan-niweidio, i fwlio yn ystod plentynod (Bowes et al., 2015). Mae plant sy'n cael eu bwlio yn cael mwy o gefnogaeth ysgol na phlant nad ydynt yn cael

eu bwlio, ac maent hefyd mewn mwy o berygl o absenoldeb o'r ysgol, sy'n effeithio ar gyrhaeddiad academiaidd diweddarach a rhagolygon cyflogaeth (Brown, Clery a Ferguson, 2011). Mae plant sy'n bwlio yn fwy tebygol o ddangos ymddygiad ymosodol a threisgar yn ystod eu harddegau ac fel oedolion (Tofti, Farrington a Lösel, 2012) yn ogystal â defnyddio cyffuriau anghyfreithlon (Tofti et al., 2016).

Effaith ar staff a straen ar athrawon

Nododd adroddiad gan NASUWT (Better Deal on Behaviour, 2023) fod 38% o athrawon wedi profi cam-drin corfforol neu drais gan ddisgyblion yn y flwyddyn flaenorol, a bod 95% wedi adrodd am gam-drin geiriol. Nodwyd 'ateb yn ôl' ac anghwrteisi fel yr ymddygiadau mwyaf cyffredin, gan effeithio ar 98% o'r ymatebwyr (NASUWT, 2023).

Mae straen ar athrawon yn cael ei waethygu ymhellach gan lwyth gwaith uchel, gyda Chyngres yr Undebau Llafur (2024) yn nodi athrawon fel y proffesiwn sy'n gwneud y mwyaf o oramser di-dâl. Mae gofynion atal ac ymateb i ymddygiad mewn amgylcheddau ystafell ddosbarth cynyddol gymhleth a all gynnwys myfyrwyr o gefndiroedd diwylliannol, ieithyddol ac economaidd-gymdeithasol amrywiol, ynghyd â phwysau gweinyddol, wedi arwain at bryderon cynyddol ynghylch gorflinder ac athreulio (Egan, et al., 2024). Yn aml, yr ysgolion sy'n wynebu'r heriau mwyaf difrifol o ran recriwtio a chadw yw'r rhai mewn ardaloedd sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, lle mae prinder staff yn arwain at fwy o lwythi gwaith i'r athrawon sy'n weddill a llai o gapasiti i roi strategaethau rheoli ymddygiad effeithiol ar waith.

Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod llawer o athrawon ar ddechrau eu gyrfa (ECTs) yng Nghymru yn dewis rolau addysgu llanw yn hytrach na swyddi parhaol, gan nodi llwyth gwaith, straen, a gofynion emosiynol rheoli ymddygiad fel rhwystrau allweddol i addysgu llawn amser (Egan et al., 2024). Mae hyn yn awgrymu y byddai buddsoddiad a wneir yn ystod Addysg Gychwynnol Athrawon a Sefydlu sy'n paratoi athrawon dan hyfforddiant yn well i ddeall ymddygiad heriol ac yn helpu i feithrin hunanofal a gwydnwch yn fuddiol. Mewn rhai achosion, mae baich atal ac ymateb i ymddygiad heriol wedi arwain at athrawon yn gadael y proffesiwn yn llwyr gan waethygu anawsterau recriwtio a rhoi mwy o straen ar y rhai sy'n aros (Noone et al., 2023).

Gwaharddiadau

Ceir tystiolaeth bellach o'r effaith gan gynydd sylweddol mewn gwaharddiadau o'r ysgol; er enghraifft, cynyddodd cyfradd y gwaharddiadau tymor penodol² o 5 diwrnod neu lai o 41.0 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2018/19 i 50.6 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2021/22, tra bod gwaharddiadau tymor penodol o dros 5 diwrnod wedi codi o 1.7 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2018/19 i 2.0 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2021/22. Gwelwyd cynnydd hefyd yng nghyfradd y gwaharddiadau parhaol, gan godi o 0.4 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2018/19 i 0.5 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2021/22 (Llywodraeth Cymru, 2023).

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu y gall gwaharddiadau nodi dechrau llwybr bywyd niweidiol. Mae pobl ifanc sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol yn llawer mwy tebygol o brofi canlyniadau bywyd negyddol. Er enghraifft, roedd 85% o fechgyn mewn Timau Troseddau leuenctid yn Lloegr wedi cael eu gwahardd o'r ysgol cyn mynd i'r ddalfa. Mae'r tueddiadau hyn yn adlewyrchu'r rhai a welwyd yng Nghymru, lle mae Llywodraeth Cymru (2023) wedi dogfennu cyfraddau cynyddol o waharddiadau tymor penodol a pharhaol. Mae patrymau o'r fath yn effeithio'n anghymesur ar ddisgyblion sydd eisoes yn wynebu adfyd, ac mae'r cysylltiad rhwng gwaharddiad ac ymwneud yn ddiweddarach â'r system cyfiawnder troseddol wedi'i nodi'n gyson (Comisiynydd Plant, 2020; Cogan et al., 2025).

Mae plant ag anghenion Cymdeithasol, Emosiynol ac Iechyd Meddwl (SEMH) mewn mwy o berygl o gael eu gwahardd. Mae disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion SEMH yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan waharddiadau o'r ysgol a phrosesau cysylltiedig megis symudiadau rheoledig ac absenoldebau cyson. Mae'r grŵp hwn hefyd yn dangos lefelau uwch o dangyflawni academaidd a thralod emosiynol, yn aml oherwydd anghenion nas diwallwyd neu a gamddeallwyd o fewn y system ysgolion (Cogan et al., 2025).

Mae llawer o waharddiadau yn deillio nid o falais bwriadol gan ddisgyblion, ond o ddiffyg hyfforddiant, cymorth neu alluedd staff ysgol i nodi ac ymateb yn effeithiol i anghenion dysgu ac ymddygiad cymhleth. Mae pwysau cyllidebol a llai o fynediad at gymorth arbenigol yn cyfrannu ymhellach at benderfyniadau gwaharddol (Graham, 2019; Davies et al., 2021; Cogan et al., 2025).

Mae'r materion hyn yn cael eu gwaethygu gan ffactorau cymdeithasol a systemig ehangach, megis anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol (Sefydliad

² Yn Nghymru, mae eithriadau tymor penodol yn cyfeirio at symud dros dro disgybl o'r ysgol am resymau disgybliaeth, yn amrywio o hanner diwrnod hyd at uchafswm o 45 diwrnod ysgol mewn un flwyddyn academaidd.

Astudiaethau Cyllidol, 2022), newid deinameg yr ystafell ddosbarth (Sefydliad Gwaddol Addysg, 2021), integreiddio technoleg, anghenion amrywiol dysgwyr, a'r angen am ddulliau ysgol gyfan effeithiol (Parsons et al., 2022).

Cyd-destun Polisi Cymru

Mae ysgolion yng Nghymru wedi ymrwymo i wella canlyniadau, diwallu anghenion amrywiol dysgwyr, a chynnal amgylcheddau dysgu cynhwysol a diogel. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu llywio gan nifer o bolisiau a fframweithiau cenedlaethol allweddol.

Roedd Adolygiad Ymddygiad a Phresenoldeb Cenedlaethol (AYPC) Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2008) yn ddogfen bolisi sylfaenol a luniodd fframweithiau deddfwriaethol a chanllawiau dilynol ledled Cymru yn sylweddol. Nododd yr AYPC gysylltiad uniongyrchol rhwng sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol gwael ac anawsterau ymddygiad cynyddol, absenoldeb a gwaharddiadau. Pwysleisiodd fod anawsterau cynnar mewn darllen, na roddwyd sylw iddynt, yn rhagfynegi'n gryf ymddieithrio oddi wrth ddysgu, tarfu ar ymddygiad, ac eithrio cymdeithasol hirdymor. Un o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad oedd bod mwy o ddisgyblion â lefelau isel o lythrennedd neu rifedd yn debygol o beidio â mynychu'r ysgol neu ddatblygu problemau ymddygiadol, yn enwedig wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mewn ymateb, argymhellodd yr adolygiad na ddylai unrhyw blentyn o fewn yr ystod gallu prif ffrwd adael yr ysgol gynradd heb sgiliau darllen ac ysgrifennu swyddogaethol. Roedd yr adroddiad hefyd yn dadlau'n gryf dros ymyrraeth gynharach, arweinyddiaeth genedlaethol ar lythrennedd, a dull ataliol o fynd i'r afael ag ymddygiad a phresenoldeb. Galwodd am symud o arferion cosbol neu adweithiol i strategaethau cynhwysol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac sy'n canolbwyntio ar y person, wedi'u hymgorffori mewn dull ysgol gyfan.

Amlygodd adroddiad AYPC (Llywodraeth Cymru, 2008) hefyd bwysigrwydd hyfforddiant a meithrin gallu ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgol, gwell cydweithio amlasiantaethol, a sicrhau bod addysg briodol yn parhau ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Mae'r egwyddorion hyn yn parhau i fod yn sail i fframweithiau presennol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf ALNET, y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol (WSAEMW), a'r model Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau wedi'u teilwra i gefnogi rheoli ymddygiad mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae llawlyfr 2010 ar gyfer

ysgolion uwchradd a fersiwn 2012 ar gyfer ysgolion cynradd yn darparu strategaethau ymarferol i athrawon dosbarth hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a mynd i'r afael ag unrhyw aflonyddwch. Mae'r adnoddau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd dulliau cyson a rhagweithiol o reoli ymddygiad, gan gyfrannu at amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogi lles dysgwyr ac ymgysylltiad academiaidd.

Mae Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2017) yn gosod tegwch, lles, a safonau uchel wrth wraidd gwella ysgolion. Ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), sefydlodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 system gymorth unedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws lleoliadau addysgol, gan argymhell dull aml-haen o gefnogi anghenion dysgwyr a sicrhau ymagwedd gyson, gyfartal a chynhwysol.

Mae diwylliant ysgol gefnogol yn allweddol i fynd i'r afael â'r heriau hyn, ac mae mentrau fel y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol (Llywodraeth Cymru, 2021) yn chwarae rhan bwysig wrth feithrin lles a gwydnwch ymhlith dysgwyr. Er nad yw wedi'i gynllunio'n benodol i fynd i'r afael â materion ymddygiad, mae'r dull hwn yn hyrwyddo ethos ataliol a chefnogol sy'n ategu ymdrechion rheoli ymddygiad ar draws yr ysgol ac yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r Fframwaith ar Ymgorffori Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol (Llywodraeth Cymru, 2021) yn tynnu sylw at bwysigrwydd meithrin diwylliant ysgol gefnogol, wedi'i ategu gan lythrennedd emosiynol, arferion cyson, a chydweithio ysgol gyfan. Mae'r fframwaith hwn yn cyd-fynd â strategaethau rheoli ymddygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan atgyfnerthu'r angen am ddulliau ataliol a rhagweithiol sy'n creu hinsawdd ysgol gadarnhaol. Er nad oedd Fframwaith WSAEMW wedi'i fwriadu fel dull ysgol gyfan ar gyfer rheoli ymddygiad, mae sawl un o'r egwyddorion yn gorgyffwrdd yn agos â'r dull cyffredinol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer rheoli ymddygiad. Yn ogystal, mae meddwl mwy diweddar yn awgrymu y gellir deall bod llawer o faterion emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl yn datblygu o amgylchedd cyffredin nad yw'n feithringar. (Biglan, Fry ac Embry, 2012; Biglan, 2015).

Mae'r Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol (Llywodraeth Cymru, 2022) yn atgyfnerthu'r nodau cynhwysol hyn drwy hyrwyddo Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol (CYC), sy'n mabwysiadu dull cydweithredol, sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n ceisio creu'r amodau sy'n lleihau'r risg o ymddygiadau heriol. Mae CYC yn amlygu'r angen am berthnasoedd cadarnhaol ac amgylcheddau ymatebol, cefnogol, lle mae staff wedi'u hyfforddi a'u goruchwyllo'n ddigonol i fabwysiadu strategaethau rhagweithiol sy'n atal yr angen am ymyriadau cyfyngol. Mae hyn

yn cyd-fynd â'r arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a hyrwyddir yn yr adroddiad hwn.

Mae Canllawiau Ysgolion Bro (2022) Llywodraeth Cymru yn nodi gweledigaeth i ysgolion weithredu fel canolfannau cefnogol i'w cymunedau lleol, gan fynd i'r afael ag anghenion economaidd-gymdeithasol, dysgu a lles ehangach trwy bartneriaethau cryf â theuluoedd, gwasanaethau lleol, a sefydliadau cymunedol. Anogir ysgolion cymunedol i gydweithio i gael gwared ar rwystrau anacademaidd i ddysgu — yn enwedig i'r dysgwyr hynny sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio neu gael eu gwahardd. Trwy wreiddio gwasanaethau fel cymorth i deuluoedd, rhaglenni rhianta, gwaith ieuencid, a mynediad at wasanaethau arbenigol o fewn neu ochr yn ochr â lleoliad yr ysgol, mae'r model hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r amgylchiadau ehangach a all gyfrannu at ymddygiad sy'n herio yn yr ystafell ddosbarth.

Ar gyfer dysgwyr sy'n arddangos ymddygiadau sy'n tarfu neu'n achosi pryder, gall dulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned chwarae rhan ataliol hanfodol. Mae mynediad at gymorth cofleidiol — fel cwnsela, cymorth cynnar ar gyfer iechyd meddwl, neu gymorth ymarferol gyda thai neu ansicrwydd ariannol — yn galluogi ysgolion i gael golwg fwy cyfannol ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad disgyblion. Yn hollbwysig, mae'r model hefyd yn cryfhau ymgysylltiad â theuluoedd, gan hyrwyddo cyfrifoldeb a rennir ac ymyrraeth gynnar trwy gymorth hygyrch, heb stigma. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos â'r egwyddorion a amlinellir yn y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Lles Emosiynol a Meddyliol ac mae'n cynnig mecanwaith ymarferol ar gyfer darparu cymorth ymddygiad cynhwysol yn y gymuned sy'n mynd i'r afael ag achosion craidd ymddieithrio.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad cynhwysfawr o arferion sydd â'r nod o atal gwaharddiadau o'r ysgol, sy'n pwysleisio pwysigrwydd ymyrraeth gynnar, diwylliannau ysgol gynhwysol, a chynnwys teuluoedd a dysgwyr yn weithredol yn y prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'n amlygu'r angen i gymhwyso polisïau'n gyson ar draws ysgolion ac yn argymhell cymorth gwell i ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ac o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae'r canfyddiadau'n cyd-fynd ag ymrwymiad polisi ehangach Cymru i degwch, cynhwysiant a hawliau'r plentyn (Llywodraeth Cymru, 2024).

Drwy adeiladu ar bolisïau o'r fath a meithrin cydweithio rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a theuluoedd, mae ymchwil yn awgrymu ei bod hi'n bosibl creu amgylcheddau meithringar sy'n cefnogi datblygiad academaidd, gymdeithasol, ymddygiadol ac emosiynol - gan leihau'r risg ac achosion o ymddygiadau sy'n heriol.

Crynodeb

Mae canllawiau o lenyddiaeth Gymraeg a rhyngwladol yn pwysleisio'r angen am fframweithiau ysgol gyfan gyson sy'n cefnogi cyflawniad, lles ac ymgysylltiad academaidd dysgwyr ac yn lleihau'r risg o ymddygiadau heriol. Mae canllawiau presennol gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau fel Sefydliad Gwaddol Addysg (EEF) yn dadlau dros ddull cynhwysol, ysgol gyfan sy'n cefnogi strategaethau rhagweithiol ac yn pwysleisio datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol cadarnhaol ar lefel ataliol. Mae canllawiau'n awgrymu nad yw dulliau dim goddefgarwch a chosbol yn hyrwyddo datblygiad dysgwyr cymdeithasol nac yn meithrin amgylchedd dysgu cefnogol a meithringar.

Fodd bynnag, mae diffyg synthesis ynghylch sut mae'r canllawiau hyn yn cael eu gweithredu ar lawr gwlad yn ysgolion Cymru, yn enwedig o ran dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r ymchwil hon yn ceisio cyfrannu at gau'r bwlch hwn drwy nodi a syntheseiddio arferion gorau mewn dulliau ysgol gyfan o hyrwyddo rheoli ymddygiad cadarnhaol o'r llenyddiaeth a'r lleoliadau yng Nghymru. Isod rydym yn cyflwyno cyd-destun damcaniaethol ar gyfer deall ymddygiad mewn ysgolion a'r canllawiau ar ddulliau ysgol gyfan ac ystafell ddosbarth sy'n gweithio i ddatblygu amgylcheddau ysgol gadarnhaol sy'n lleihau'r risg o ymddygiadau heriol.

Cyd-destun Damcaniaethol

Canolbwyntiodd yr adolygiad hwn ar ddarpariaeth ymddygiad ysgol-gyfan gyffredinol, ymyriadau ymddygiad pwrpasol ALL, ac arferion dosbarth gorau.

Deall ymddygiad yn gyfannol ac yn gyd-destunol: Amgylcheddau sy'n meithrin lles, cyflawniad ac ymgysylltiad dysgwyr.

Mae deall ymddygiad mewn lleoliadau ysgol yn gofyn am symud y tu hwnt i gysyniadau hen ffasiwn o ymddygiad fel set o gamau gweithredu ynysig neu nodweddion cynhenid unigolion nad ydynt yn gysylltiedig â lles emosiynol a dysgu. Yn lle hynny, rhaid deall ymddygiad yn ei gyd-destun, fel ymateb swyddogaethol a deinamig i'r amgylchedd y mae'n digwydd ynddo. Mewn cyd-

destunau addysgol, mae hyn yn golygu cydnabod bod ymddygiadau sy'n herio yn aml yn fynegiadau o anghenion heb eu diwallu neu ymatebion i ofid, wedi'u dylanwadu gan hanes datblygiadol a phrofiadol dysgwr, y gofynion a roddir arnynt, a ffactorau systemig ehangach fel dynameg cyfoedion, rhyngweithiadau athrawon, a diwylliant yr ysgol (Biglan et al., 2012; Cogan et al., 2025). Er bod rhaid i ysgolion ymateb i ymddygiadau unigol, dylai ymatebion o'r fath gael eu llywio gan ymwybyddiaeth ehangach bod ymddygiad bob amser yn cael ei bennu gan luosogrwydd, a bod gwelliannau parhaol mewn canlyniadau dysgwyr yn gofyn am roi sylw i'r systemau ecolegol ehangach — cymdeithasol, emosiynol, addysgu, a diwylliannol — lle mae ymddygiad wedi'i wreiddio ynddynt.

Mae Damcaniaeth Systemau Ecolegol Bronfenbrenner (1977) yn darparu lens gyd-destunol werthfawr ar gyfer deall y ffactorau cymhleth sy'n dylanwadu ar ymddygiad dysgwyr gartref, yn yr ysgol, ac o fewn y gymuned ehangach (Weisner, 2008). Mae'r ddamcaniaeth yn pwysleisio bod datblygiad yn cael ei siapio gan systemau rhyng-gysylltiedig lluosog: y micro system (fel y cartref a'r ysgol), y meso system (y perthnasoedd rhwng y lleoliadau hyn), yr ecosystem (dylanwadau anuniongyrchol megis gwasanaethau awdurdod lleol neu amodau gwaith rhieni), a'r macro system (y cyd-destunau diwylliannol, cymdeithasol a pholisi ehangach). Gan adeiladu ar y sylfaen hon, mae Fframwaith Plant a Phobl Ifanc yn yr Ysgol (KiTeS) (Melvin et al., 2019) yn cymhwyso persbectif bio-ecolegol yn benodol i faterion presenoldeb ac absenoldeb yn yr ysgol, gan gynnig model cynhwysol sy'n ystyried anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag anableddau a'r rhai sydd heb anableddau. Mae KiTeS yn cysyniadoli presenoldeb nid yn unig fel gweithred ymddygiadol ond hefyd fel carreg filltir ddatblygiadol, wedi'i llunio gan ryngweithiadau deinamig ar draws cyd-destunau unigol, teuluol, ysgol a chymdeithasol. Mae'n amlygu bod patrymau ymgysylltu neu ddiffyg ymgysylltu yn aml yn adlewyrchu heriau ecolegol ehangach yn hytrach na diffygion unigol yn unig. Mae edrych ar ymddygiadau sy'n herio drwy'r fframwaith ecolegol estynedig hwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd dulliau integredig, system gyfan sy'n alinio ymdrechion y cartref, yr ysgol a'r gymuned i gefnogi datblygiad cadarnhaol, ymgysylltiad a lles yn y ffordd orau bosibl.

Bellach mae ymchwil ryngwladol sylweddol yn bodoli sydd wedi profi effaith strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol, cymdeithasol ac atal aflonyddwch mewn ysgolion (Biglan et al., 2012). Un enghraifft yw rhaglen Gwrth-fwlio Kiva. Mae ymddygiadau cymdeithasol - gyfeiria at y cymhelliant a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gymryd rhan yn adeiladol mewn bywyd cymdeithasol ac i fabwysiadu rolau ystyrllon a chyfrifol yn gymdeithasol o fewn eich gymuned. Mae Biglan et al. (2012) yn

diffinio pro-gymdeithasoldeb fel “yn cwmpasu’r galluoedd gwybyddol, cymdeithasol a hunanreoleiddiol sy’n galluogi unigolion i ymgysylltu’n gadarnhaol ag eraill, cyfrannu at nodau cyffredin, a llywio amgylcheddau cymdeithasol cymhleth” (t. 260). Nid yw’r ymddygiadau hyn yn nodweddion cynhenid ond cânt eu llunio gan gyd-destunau meithringar sy’n hyrwyddo empathi, cydweithrediad, rheoleiddio emosiynol, a gwneud penderfyniadau adeiladol yn gymdeithasol. Mae hyrwyddo datblygiad cymdeithasol felly yn nod canolog i ymyriadau yn yr ysgol sy’n ceisio lleihau ymddygiadau heriol a gwella lles unigol a chyfunol.

Mae’r gwaith hwn yn cyd-fynd yn agos â chenhadaeth y Gymdeithas Ymchwil Atal (SPR), sefydliad rhyngwladol blaenllaw sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo rhaglenni a pholisïau atal sy’n seiliedig ar wyddoniaeth sy’n gwella iechyd a lles unigolion a chymunedau. Mae dull allweddol yn mynegi model iechyd cyhoeddus ar gyfer newid ymddygiad — un sy’n pwysleisio meithrin amodau amgylcheddol sy’n gweithio i atal ystod eang o broblemau seicolegol, ymddygiadol ac iechyd. Mae’r SPR yn hyrwyddo ymchwil drylwyr i nodi’r mathau hyn o amodau amgylcheddol amddiffynnol ac i gynyddu ymyriadau effeithiol mewn ffyrdd sydd o fudd i boblogaethau cyfan. Mae eu gwaith yn tanlinellu bod rhaid i welliannau cynaliadwy mewn ymddygiad a lles fod yn seiliedig nid yn unig ar ymyriadau sy’n targedu unigolion, ond hefyd ar ymdrechion systemig cydlynol i drawsnewid yr ecoleg gymdeithasol ehangach lle mae plant yn tyfu ac yn dysgu (Society for Prevention Research, 2004; Biglan, 2015).

Mae cefnogi ymddygiadau cadarnhaol yn effeithiol yn gofyn am ddull cytbwys sy’n mynd y tu hwnt i fesurau adweithiol. Er y gall arferion gwaharddol fel gwaharddiadau, cadw yn ôl, a pholisïau “dim goddefgarwch” gynnig atebion uniongyrchol, mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod yn aml yn aneffeithiol yn y tymor hir a gallant effeithio’n anghymesur ar grwpiau agored i niwed (Skiba a Peterson, 1999, 2000). Yng Nghymru, mae cydnabyddiaeth gynyddol o’r angen i fabwysiadu strategaethau sy’n seiliedig ar dystiolaeth mewn ymdrech i greu proffesiwn sy’n seiliedig ar dystiolaeth (Llywodraeth Cymru, 2021).

Mae Biglan et al. (2012) yn dadlau, yn hytrach na bod yn broblemau penodol ag achosion unigryw, mae canlyniadau andwyol i ddysgwyr, fel ymddygiad ymosodol, camddefnyddio sylweddau, ymddieithrio academaidd, a rheoleiddio emosiynol gwael, yn cael eu deall yn well fel rhai sy’n dod o amgylcheddau sy’n methu â meithrin oherwydd ffactorau risg y gellir eu haddasu. Diffinnir amgylcheddau meithringar fel rhai sydd â phedair cydran: (1) maent yn gweithio i atal neu leihau amlygiad i straenwyr biolegol, cymdeithasol a seicolegol gwenwynig, (2) maent yn gweithio i hyrwyddo, addysgu ac annog pob ymddygiad cymdeithasol yn helaeth, (3) maent yn gweithio i gyfyngu a monitro cyfleoedd i

ymgysylltu ag ymddygiad problemus neu annymunol, a (4) maent yn gweithio i feithrin mwy o hyblygrwydd seicolegol — galluogi unigolyn i gael mynediad at ei werthoedd craidd a'u gwerthfawrogi ac i oddef teimladau gofidus a pheidio â chymryd yn ganiataol bod eu holl feddwl negyddol yn gywir

Mae'r fframwaith amgylcheddau meithringar yn ail-fframio heriau ymddygiadol nid fel problemau a leolir o fewn plant, ond fel cynhyrchion eu hamgylcheddau — yn enwedig pan fo'r amgylcheddau hynny'n orfodol, yn anghyson, yn esgeulus, neu'n annilysu'n emosiynol. Yn hollbwysig, mae hyn yn tynnu sylw at y cysylltiad agos rhwng ymddygiad a lles emosiynol: mae amgylcheddau sy'n atgyfnerthu cymdeithasgarwch ac yn lleihau profiadau atgas neu annymunol nid yn unig yn gwella ymddygiad ond hefyd yn cefnogi iechyd meddwl a gwydnwch. Mae'r ddealltwriaeth integredig hon yn darparu rhesymeg gymhellol ar gyfer dulliau ysgol gyfan sy'n cynnwys pob aelod o gymuned yr ysgol — gan gynnwys dysgwyr, staff, teuluoedd, a phartneriaid allanol — yn cydweithio i greu amgylchedd cefnogol sy'n hyrwyddo iechyd meddwl a lles cadarnhaol. Mae'r ymagwedd ysgol gyfan yn cwmpasu polisïau, arferion, a pherthnasoedd ar draws yr ysgol gyfan, sy'n hyrwyddo llythrennedd emosiynol, ac yn mynd i'r afael â ffactorau systemig sy'n cyfrannu at gam-reoleiddio ac ymddieithrio. Drwy symud y ffocws o batholeg unigol i benderfynyddion amgylcheddol a rennir, mae'r gwaith hwn yn cynnig strategaeth gydlynol ar gyfer atal ac ymyrryd. Felly, nid mater ymddygiad yn unig yw creu a chynnal amgylcheddau ysgol feithringar — mae'n rheidrwydd iechyd y cyhoedd.

Canllawiau ar ddulliau systemig ysgol gyfan ar gyfer adeiladu amgylcheddau ysgol cadarnhaol

Yn unol â damcaniaeth systemau ecolegol Bronfenbrenner, ac amgylcheddau Meithrin Biglan, sydd ill dau yn pwysleisio cydgysylltedd unigolion a'u hamgylcheddau, anogir ysgolion yng Nghymru i feithrin ecosystemau cefnogol sy'n hyrwyddo lles, cyflawniad ac ymgysylltiad dysgwyr. Mae'r Ymagwedd Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol a'r Fframwaith Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned ill dau yn atgyfnerthu pwysigrwydd adeiladu amgylcheddau cynhwysol a meithringar sy'n cefnogi dysgwyr a staff (Llywodraeth Cymru, 2021a; 2022a). O fewn y fframwaith hwn, mae athrawon yn chwarae rhan ganolog ar lefel y micro system, gan ddylanwadu'n uniongyrchol ar brofiadau a datblygiad dyddiol dysgwyr. Fodd bynnag, gall straen parhaus ar athrawon danseilio'r ymdrechion hyn. Mae mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn gofyn am ddull cyfannol, aml-haenog - un sy'n cydnabod y

rhyngweithio cymhleth rhwng diwylliant yr ysgol, arweinyddiaeth a phartneriaethau cymunedol.

Mae ymagwedd ysgol gyfan yn cyfeirio at fframwaith cydgysylltiedig, system gyfan sy'n ymgorffori lles ac ymddygiad cadarnhaol fel blaenoriaethau craidd ar draws pob agwedd ar fywyd ysgol. Yn hytrach na bod yn gyfyngedig i ymyriadau ar wahân, mae'n integreiddio polisi, arweinyddiaeth, cwricwlwm, arfer ystafell ddosbarth, datblygu staff, ac ymgysylltu cymunedol i hyrwyddo amgylchedd cefnogol a chynhwysol i bob dysgwr. Mae llawer o fodelau ysgol gyfan hefyd yn mabwysiadu strwythur aml-haen, sy'n cynnwys lefelau cymorth cyffredinol a rhai wedi'u targedu. Mae cymorth cyffredinol yn cynnwys disgwyliadau cyson, arferion ac addysgu rhagweithiol o sgiliau academiaidd, cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol i bob disgybl. Mae cymorth cyffredinol wedi'i anelu at ymyrraeth gynnar ac atal. Mae cymorth wedi'i dargedu yn darparu ymyriadau mwy ffocws, mewn grwpiau bach neu unigol i'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol i lwyddo, gyda'r nod o atal anawsterau rhag gwaethygu.

Mae'n hanfodol ystyried fframweithiau rhagweithiol, strwythuredig ar gyfer yr ysgol gyfan sy'n cefnogi atal ac ymyrraeth. Un fframwaith o'r fath yw Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol Ysgol Gyfan (SWPBS), dull aml-haen ar gyfer pob dysgwr a staff o fewn cymuned ysgol. Mae SWPBS hefyd yn integreiddio model Ymateb i Ymyrraeth (RTI), sy'n ategu ac yn ymestyn rheoli ymddygiad cyffredinol trwy ddarparu dull haenog o fynd i'r afael ag anghenion academiaidd a chymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol dysgwyr (Sugai a Horner, 2009).


Mae Ymateb i Ymyrraeth (RTI) yn pwysleisio dulliau rhagweithiol, sy'n seiliedig ar ddata, i wella canlyniadau dysgwyr. Maent yn eiriol dros greu amgylcheddau ysgol gyson, ragweladwy a chadarnhaol trwy ymyrraeth gynnar ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth (Sugai & Horner, 2009).

Mae RTI yn fframwaith aml-haen sydd wedi'i gynllunio i ddarparu cymorth systematig, cynnar i ddysgwyr sy'n profi heriau academiaidd, cymdeithasol ac ymddygiadol. Mae'n integreiddio strategaethau dysgu ac ymddygiad o fewn system gydlynol sydd wedi'i hadeiladu ar wneud penderfyniadau ar sail data. Yn ôl Horner a Sugai (2015), mae RTI yn cynnwys tair haen:

- Haen 1: Strategaethau cyffredinol, ysgol-gyfan gyda'r nod o hybu ymddygiad cadarnhaol, gwella llwyddiant academiaidd, ac atal materion cyn iddynt waethygu. Mae'r lefel hon yn cynnwys gweithredu arferion cyson, disgwyliadau wedi'u diffinio'n glir, ac addysgu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac academiaidd yn rhagweithiol i bob dysgwr. Disgwylir i tua

80% o ddysgwyr ymateb yn gadarnhaol i'r cymorth cyffredinol ar lefel ysgol-gyfan.

- Haen 2: Ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r cymorth hwn, a ddarperir yn aml mewn grwpiau bach neu'n unigol, yn mynd i'r afael ag anghenion penodol trwy ddulliau fel addysg sgiliau cymdeithasol, hyfforddiant ymddygiadol, a thiwtora academiaidd. Gall tua 15% o ddysgwyr fod angen ymyriadau grŵp ychwanegol, wedi'u targedu.
- Haen 3: Ymyriadau dwys, unigol ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu heriau sylweddol sy'n gofyn am gynlluniau cymorth wedi'u teilwra. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu datblygu ar y cyd gan athrawon, staff cymorth, teuluoedd, a lle bo angen, arbenigwyr allanol. Mae'n debygol y bydd angen cynlluniau cymorth dwys ac unigol iawn ar tua 5% o ddisgyblion.



Ffigur 1 Fframwaith Ymateb i Ymyrraeth (RTI) haenog sy'n dangos lefelau cymorth cyffredinol, wedi'u targedu a chymorth dwys i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a chanlyniadau dysgu mewn ysgolion.

Mae ymchwil yn gyson yn dangos cysylltiad cryf rhwng cyflawniad academiaidd isel ac ymddygiad heriol mewn ysgolion. Yn aml, mae anawsterau academiaidd yn arwain at rwystredigaeth, hunan-barch isel, ac ymddygiad aflonyddgar, gan greu cylch o berfformiad gwael a phroblemau ymddygiad a gall hynny wreiddio'n ddwfn dros amser (McIntosh a Goodman, 2016). Gall dysgwyr sy'n cael

trafferthion academiaidd ddangos herfeiddiad, encilio, neu ymddygiad aflonyddgar oherwydd rhwystredigaeth a hunanwerth isel. Mae ymgysylltiad gwael, yn enwedig pan nad yw dulliau addysgu wedi'u haddasu i'w hanghenion, yn cyfrannu at ymddygiad oddi ar y dasg ac aflonyddwch yn yr ystafell ddosbarth sy'n effeithio ar yr unigolyn a'i gyfoedion. Gall gwrthod cymdeithasol neu fwlio sy'n gysylltiedig ag anawsterau academiaidd waethygu heriau ymddygiadol, tra bod sgiliau cymdeithasol a rheoleiddio emosiynol gwael yn aml yn cyd-fynd â'r materion hyn (Pesu, Viljaranta, ac Aunola, 2016).

Mae dulliau ysgol gyfan sy'n blaenoriaethu lles disgyblion yn chwarae rhan hanfodol yn y broses hon. Drwy feithrin amgylcheddau meithringar a chefnogol, gall ysgolion reoli ymddygiad yn rhagweithiol a chreu amodau lle mae pob myfyriwr yn fwy tebygol o ffynnu'n academiaidd ac yn emosiynol. Er bod llawer o wledydd wedi gweithredu strategaethau sydd â'r nod o liniaru effeithiau negyddol y pandemig ar ddysgwyr, yn enwedig mewn perthynas â chyrhaeddiad a lles, mae pryderon yn parhau ynghylch digonolrwydd y dulliau presennol wrth fynd i'r afael â heriau ymddygiadol ar lefel systemig (Biglan et al., 2012; Durlak et al., 2011; Llywodraeth Cymru, 2021a)).

Canllawiau ar Arfer Effeithiol yn yr Ystafell Ddosbarth

Mae ymarfer addysgu o ansawdd uchel yn ganolog i ymgysylltiad dysgwyr a lles dysgwyr a rheoli ymddygiad yn effeithiol. Mae arferion cyson, disgwyliadau clir, gwersi diddorol, a pherthnasoedd cryf rhwng athrawon a disgyblion i gyd yn cyfrannu at leihau'r risg o ymddygiad sy'n tarfu ac yn herio.

Mae llawlyfrau Dulliau Ymarferol Rheoli Ymddygiad yn yr Ystafell Ddosbarth Llywodraeth Cymru ar gyfer athrawon cynradd (2012) ac uwchradd (2010) yn darparu canllawiau sy'n seiliedig ar ymchwil ar feithrin ymddygiad cymdeithasol cadarnhaol. Mae'r adnoddau hyn yn pwysleisio:

- Rheolau clir, wedi'u geirio'n gadarnhaol a gwerthoedd ystafell ddosbarth sy'n cael cefnogaeth y dysgwr.
- Defnydd cyson o'r drefn arferol.
- Addysgu, canmol ac annog ymddygiad cymdeithasol penodol, h.y. ymddygiadau neu gamau gweithredu sydd â'r bwriad o fod o fudd i'r dysgwr ac eraill neu gyfrannu at lesiant cymdeithas.
- Ymatebion teg a pherthynasol i ymddygiad heriol.

Mae'r themâu hyn yn cyd-fynd yn agos ag ymchwil arsylwadol Latham (1997), a nododd wyth sgil allweddol y mae'n eu disgrifio fel sgiliau hanfodol y dylai athro eu mestroli i greu a chynnal amgylcheddau dysgu effeithiol. Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys addysgu disgwyliadau clir, cadw myfyrwyr ar dasg, cynnal rhyngweithiadau cadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion, ymateb heb orfodaeth i ymddygiad amhriodol, darparu cyfleoedd ymateb di-risg, cefnogi myfyrwyr ag ymddygiadau heriol yn yr amgylchedd dysgu cynradd, osgoi trapiau sy'n gwaethygu ymddygiad problemus, a rheoli ymddygiad gan ddefnyddio egwyddorion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae Latham yn pwysleisio bod y sgiliau hyn yn hanfodol i athrawon feithrin amgylcheddau lle gall plant ddysgu'n effeithiol a lle maen nhw'n mwynhau'r broses. Mae gwaith Latham yn tynnu sylw at y ffaith bod ymyriadau tawel, di-orfodol — megis ailgyfeirio ac agosrwydd athrawon — yn sylweddol fwy effeithiol nag ymatebion adweithiol neu gosbol.

Mae ymarfer sy'n seiliedig ar berthnasoedd yn thema allweddol yn y llenyddiaeth. Gall meithrin ymddiriedaeth drwy adnabod diddordebau disgyblion, cydnabod eu hymdrechion, ac ymateb yn gyson fod yn arbennig o effeithiol i ddysgwyr sy'n wynebu anawsterau.

Yn unol â'r egwyddorion hyn, mae'r Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol (2022) yn argymhell dull cymorth ymddygiad cadarnhaol sy'n integreiddio dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan leihau ymyriadau cyfyngol a rhoi blaenoriaeth i ddad-ddwysáu. Mae hyn yn atgyfnerthu'r symudiad polisi ehangach tuag at arfer cynhwysol, ataliol yng Nghymru.

Gall meithrin diwylliant cadarnhaol yn yr ysgol ac addysgu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol yn benodol wella perfformiad academaidd disgyblion yn uniongyrchol (Panayiotou, Humphrey, a Wigelsworth, 2019) tra hefyd yn leihau ymddygiadau aflonyddgar ar draws yr ysgol (Caldarella et al., 2011). Mae meta-ddadansoddiad a ddyfynnwyd yn eang yn dangos effaith gadarnhaol ymyriadau dysgu cymdeithasol ac emosiynol (DCE) yn yr ysgol ar ddeilliannau myfyrwyr, gan ddangos gwelliannau mewn ymddygiad, lles emosiynol, a chyflawniad academaidd (Durlak et al., 2011). Mae DCE yn cyfarparu disgyblion â sgiliau hanfodol fel hunanreoleiddio, empathi, a gwydnwch, sy'n cyfrannu at fuddion uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth a llwyddiant addysgol hirdymor.

Dylai cefnogi ymddygiadau cymdeithasol cadarnhaol fod wedi'u seilio ar arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi anghenion academaidd ac emosiynol dysgwyr. Mae'r Sefydliad Gwaddol Addysg (EEF) yn nodi chwe argymhelliad allweddol i arwain polisi ac arfer ymddygiad mewn ysgolion:

- Adnabod a deall eich disgyblion a'u dylanwadau
- Addysgu ymddygiadau dysgu ochr yn ochr â chefnogi ymddygiadau cymdeithasol
- Defnyddio strategaethau rheoli dosbarth i gefnogi ymddygiad da
- Defnyddio dulliau syml fel rhan o'ch trefn arferol
- Defnyddio dulliau wedi'u targedu i ddiwallu anghenion unigolion
- Mae cysondeb yn allweddol

Mae canllawiau'r EEF yn annog dull ataliol, perthynol a chynhwysol sy'n blaenoriaethu deall anghenion unigol, meithrin diwylliant ysgol gadarnhaol, a hyrwyddo lles dysgwyr trwy strategaethau cyson, ysgol gyfan. Yn ogystal â'r argymhellion ymddygiad-benodol hyn, mae canllaw ategol yr EEF, *Putting Evidence to Work: A School's Guide to Implementation* (2018), yn cefnogi ysgolion i ymgorffori strategaethau o'r fath yn gynaliadwy ac yn effeithiol. Mae'r canllaw'n pwysleisio gweithredu fesul cam, gwerthuso parhaus, a damcaniaeth gref o newid — gan adleisio pwyslais Llywodraeth Cymru ar ymarfer myfyriol, cynllunio hirdymor, a chefnogaeth ar lefel y system. Gyda'i gilydd, mae'r fframweithiau hyn yn darparu sylfaen gadarn, sy'n seiliedig ar ymchwil, ar gyfer cefnogi ymddygiad, lles a dysgu disgyblion o fewn ethos cynhwysol, ysgol gyfan.

Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn ffurfio dull cydlynol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o reoli ymddygiad ar draws pob cyfnod ysgol. Fodd bynnag, mae gweithredu llwyddiannus yn dibynnu ar roi'r dysgu proffesiynol, yr adnoddau a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar staff i ymgorffori'r strategaethau hyn mewn ymarfer o ddydd i ddydd.

Nodau'r ymchwil

Nodau'r ymchwil hon oedd:

- Crynhoi canllawiau presennol ar arferion gorau wrth ddatblygu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer yr ysgol gyfan ac yn yr ystafell ddosbarth sy'n lleihau aflonyddwch ac ymddygiad sy'n herio, gan gynnwys darpariaeth ymddygiad cyffredinol a darpariaeth ddysgu ychwanegol bwrpasol.
- Adolygu'r dystiolaeth mewn llenyddiaeth gyhoeddedig ar gyfer dulliau cyffredinol, ysgol gyfan, o ddatblygu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer yr ysgol gyfan ac yn yr ystafell ddosbarth sy'n lleihau aflonyddwch ac ymddygiad heriol.

- Casglu tystiolaeth ac enghreifftiau o arfer da gan randdeiliaid ac Ysgolion Cymru sydd â pholisïau ymddygiad cadarnhaol, gan gynnwys enghreifftiau o ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY.
- Datblygu argymhellion i lywio polisi ar ddulliau effeithiol sy'n hyrwyddo amgylcheddau cadarnhaol a gweithio i leihau'r risg o ymddygiadau sy'n aflonyddu ac yn heriol.

Cwestiynau ymchwil

Y cwestiynau ymchwil oedd:

- Beth yw'r canllawiau arfer gorau ar gyfer hyrwyddo ymddygiadau cymdeithasol cadarnhaol yn yr ystafell ddosbarth ac ar draws yr ysgol gyfan?
- Beth yw'r dystiolaeth o effeithiolrwydd dulliau ysgol gyfan i greu amgylcheddau ysgol gadarnhaol sy'n helpu i leihau ymddygiadau sy'n aflonyddgar ac yn heriol.
- Beth yw'r ffactorau dylanwadol / rhwystrau i weithredu dulliau effeithiol ar gyfer yr ysgol gyfan ac yn yr ystafell ddosbarth?
- Beth yw enghreifftiau o arfer da o fewn y system Gymreig o ran creu amgylcheddau ysgol gadarnhaol?
- Beth yw anghenion parhaus ac anghenion y dyfodol ar ysgolion i sicrhau defnydd effeithiol o ddulliau i hyrwyddo ymddygiadau cymdeithasol priodol a chreu ysgolion ac ystafelloedd dosbarth meithringar?

Dulliau a Rhesymeg

Defnyddiodd gweddill yr adolygiad hwn ddull aml-ddull i sicrhau archwiliad mwy cyflawn o arferion rheoli ymddygiad ar draws ystod o gyd-destunau addysgol. Roedd dull aml-ddull yn caniatáu i'r astudiaeth fynd i'r afael â'r cwestiwn troswaol o'r hyn sy'n gweithio ym maes rheoli ymddygiad ac anghenion penodol ysgolion Cymru, gan sicrhau bod yr argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth, yn ymarferol ac yn berthnasol i'r heriau a wynebwr mewn lleoliadau addysgol yng Nghymru. Roedd dull dilyniantol ac ailadroddol yn caniatáu i bob cam lywio'r cam nesaf. Arweiniodd mewnwelediadau o'r adolygiad llenyddiaeth a'r adolygiad cyflym ddatblygiad protocolau cyfweiliadau. Yna fe wnaeth canfyddiadau thematig o gyfweiliadau a grwpiau ffocws siapio ffocws yr astudiaeth achos a llywio'r gwaith o ddatblygu argymhellion sy'n berthnasol i bolisi.

Dull Aml-Ddull Integredig

Strwythurwyd yr astudiaeth o amgylch tair prif gyfnod: Adolygiad cyflym o'r dystiolaeth; Cyfweiliadau a grwpiau ffocws lled-strwythuredig; ac astudiaethau achosion manwl.

Adolygiad cyflym

Cynhaliwyd synthesis adolygiad cyflym a oedd yn canolbwyntio ar astudiaethau meintiol o ansawdd uchel a adolygwyd gan gymheiriaid yn gwerthuso effaith strategaethau ymddygiad cyffredinol, ysgol gyfan³ ar ddeilliannau meintiol mesuradwy (e.e., atgyfeiriadau disgyblaeth swyddfa, ataliadau, cyrhaeddiad academiaidd). Roedd y cam hwn yn ymwneud ag adolygu'r llenyddiaeth yn drylwyr i sefydlu eglurder ar y sail dystiolaeth gyfredol, ac felly cyfrannu at arfer a pholisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y maes hwn. (SGYYA, 2021)

Dim ond ymchwil meintiol gafodd ei chynnwys am ddau reswm. Yn gyntaf, mae'r adolygiad cyflym hwn yn rhan o brosiect ehangach lle defnyddiwyd dull aml-ddull i ateb y cwestiynau ymchwil gan ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol (Sultana, et al., 2025). Yn ail, ymchwil feintiol gan ddefnyddio astudiaethau rheoledig sydd orau i ateb y cwestiwn ymchwil o ran pa ddulliau sy'n effeithiol mewn dulliau ysgol gyfan yn ôl astudiaethau a adolygwyd gan gymheiriaid sydd wedi'u rheoli'n dda.

Canolbwyntiodd yr adolygiad cyflym yn benodol ar ddulliau cyffredinol (Haen 1), gan fod y rhain yn ffurfio sylfaen hanfodol unrhyw fframwaith ymddygiad a llesiant ataliol. Mae dystiolaeth yn amlygu bod disgwyliadau ysgol gyfan gyson, addysgu sgiliau cymdeithasol-emosiynol yn rhagweithiol, a hinsawdd gadarnhaol a chynhwysol yn hanfodol i leihau nifer yr achosion o ymddygiadau sy'n herio a gwella deilliannau i bob dysgwr (Sugai a Horner, 2002; Horner et al., 2010). Drwy gryfhau'r ddarpariaeth gyffredinol, mae ysgolion mewn gwell sefyllfa i nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg yn gynnar, lleihau dibyniaeth ar fesurau adweithiol, a chreu'r amodau ar gyfer cymorth effeithiol wedi'i dargedu ac wedi'i deilwra i'r dysgwyr hynny sydd angen mwy o gymorth.

Canolbwyntiodd yr adolygiad cyflym ar nodi gwerthusiadau meintiol o ymyriadau ymddygiad cyffredinol a ddarparwyd ar draws lleoliadau ysgol gyfan o fewn yr 20 mlynedd diwethaf. Chwiliwyd cronfeydd data electronig ynghyd â chwiliadau llaw o adolygiadau systematig perthnasol. Ymhlith yr astudiaethau a gynhwyswyd

³ Mae'r term a ddefnyddir ar gyfer dulliau systemig ysgol gyfan yn y llenyddiaeth yn amrywiol ac yn cynnwys yr ysgol gyfan.

oedd, a oedd staff ysgol yn gweithredu'r ymyriad yn gyffredinol ar draws lleoliadau cynradd, uwchradd, ADY neu UCD. Cafodd ymyriadau academiaidd yn unig eu heithrio, ond ystyriwyd deilliannau academiaidd lle'r oedd newid ymddygiad yn ffocws i'r ymyrraeth. Cynhaliwyd y sgrinio gan ddau ymchwilydd, gyda'r anghytundebau wedi'u datrys trwy gonsensws. Roedd gwerthusiad ansawdd yn dilyn fframwaith addysg-benodol (Gorard, 2014), a dim ond astudiaethau â sgôr o leiaf dwy seren oedd wedi'u cynnwys. Amlinellir rhagor o fanylion am y meini prawf cynhwysiant, strategaeth chwilio, ac asesiad ansawdd yn Atodiadau 1, 2, a 3.

Cyfweliadau lled-strwythuredig a grwpiau ffocws

Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig a grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys penaethiaid, athrawon, staff cymorth, rhieni, a chynrychiolwyr awdurdodau lleol. Cipiodd y sesiynau hyn brofiadau bywyd, mewnwelediadau cyd-destunol, a chanfyddiadau o arferion rheoli ymddygiad effeithiol ac aneffeithiol.

Recriwtiwyd cyfranogwyr ar gyfer y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws drwy'r pedwar Consortiwm Rhanbarthol Cymru i sicrhau cynrychiolaeth o ystod o ysgolion ledled Cymru, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgolion cynradd ac uwchradd, UCDAu a lleoliadau ADY. Gwnaed ymdrechion i gynnwys cyfranogwyr o ysgolion â lefelau amrywiol o amddifadedd economaidd-gymdeithasol i gofnodi ystod amrywiol o brofiadau.

- Grŵp ffocws 1: pennaeth ysgol gynradd, dirprwy bennaeth ysgol gynradd.
- Grŵp ffocws 2: pennaeth ysgol gynradd, prifathro gweithredol mewn cyd-destun AAA, prifathro mewn cyd-destun AAA ×2, dirprwy bennaeth mewn cyd-destun AAA ×2.
- Grŵp ffocws 3: prifathro mewn cyd-destun AAA, athro ysgol gynradd mewn cyd-destun AAA ×2.
- Grŵp ffocws 4: athro Uned Atgyfeirio Disgyblion (PRU) ×3.
- Cyfweliadau: dirprwy bennaeth ysgol gynradd, prifathro gweithredol ysgol gynradd, athro ysgol gynradd ×2, cynrychiolydd yr AALI, athro ysgol uwchradd mewn cyfrwng Cymraeg.

Datblygwyd y protocol a'r amserlen cyfweliadau ar y cyd gyda mewnbwn gan banel cynghori'r prosiect a chafodd ei dreialu cyn casglu data i sicrhau cysondeb ar draws ymchwilydd. Dewiswyd y fformat cyfweld lled-strwythuredig er mwyn caniatáu hyblygrwydd, gan alluogi ymchwilydd i gipio ehangder a dyfnder

profiadau tra'n cynnal strwythur craidd. Roedd cwestiynau agored hefyd yn annog rhannu gwybodaeth oddrychol wrth ganiatáu i ymchwilwyr chwilio am fanylion ac eglurhad yn ôl yr angen (McIntosh a Morse, 2015).

Cynhaliwyd cyfweiliadau yn ystod oriau gwaith naill ai mewn ystafelloedd tawel, heb aflonyddwch neu ar-lein, yn dibynnu ar ddewisiadau ac argaeledd y cyfranogwyr. Defnyddiwyd llwyfannau fel Microsoft Teams, Zoom, neu Google Meet ar gyfer cyfweiliadau ar-lein. Dewiswyd cyfweiliadau lled-strwythuredig dros ddulliau eraill, megis grwpiau ffocws yn unig, er mwyn lleihau'r potensial ar gyfer ymatebion sydd yn ddymunol yn gymdeithasol wedi'u dylanwadu gan ddeinameg grŵp (Acoella, 2012).

Hwyluswyd y grwpiau ffocws gan ddefnyddio cwestiynau agored, heb fod yn arweiniol, i gael mewnwelediad i brofiadau cyfranogwyr o addysgu ac atal ac ymateb i ymddygiad yn ystod cau ysgolion ac ar ôl y pandemig. Galluogodd grwpiau ffocws drafodaethau deinamig a ddarparodd safbwyntiau ychwanegol, gan ategu'r data a gasglwyd trwy gyfweiliadau unigol.

Dadansoddwyd y data ansoddol a gasglwyd o gyfweiliadau a grwpiau ffocws gan ddefnyddio dadansoddiad thematig, gan ddilyn proses chwe cham Braun a Clarke (2006) o ddadansoddi thematig: (1) ymgysfarwyddo/trochi, (2) cynhyrchu codau cychwynnol, (3) cynhyrchu themâu cychwynnol, (4) adolygu themâu, (5) enwi a diffinio themâu, a (6) cynhyrchu'r adroddiad. Dewiswyd y dull hwn oherwydd ei allu i nodi, dadansoddi ac adrodd ar batrymau (themâu) o fewn y data, gan ganiatáu dealltwriaeth gynhwysfawr o brofiadau a chanfyddiadau cyfranogwyr. Sicrhodd y defnydd o ddadansoddiad thematig fod y data'n cael ei archwilio'n systematig ac yn drylwyr, gan roi mewnwelediad cyfoethog i'r pwnc.

Astudiaethau achos

Datblygwyd yr astudiaethau achos i archwilio'r defnydd o ddulliau rheoli ymddygiad yn y byd go iawn mewn lleoliadau addysgol amrywiol ledled Cymru. Drwy archwilio'r arferion, yr heriau, a'r llwyddiannau o fewn cyd-destunau penodol, nod yr astudiaethau achos oedd darparu dealltwriaeth fanwl o sut mae gwahanol ysgolion yn hyrwyddo ymddygiadau cymdeithasol ac yn mynd i'r afael ag ymddygiadau aflonyddgar a heriol a rhoi ymyriadau ar waith.

Dewiswyd pedwar lleoliad addysgol i gynrychioli gwahanol gyd-destunau o fewn system addysg Cymru: ysgol gynradd brif ffrwd, ysgol uwchradd brif ffrwd, canolfan asesu gynhwysol ac ymyrraeth gynnar, a lleoliad ADY pob oed. Cafodd

Ileoliadau eu nodi a'u gwahodd i gymryd rhan yn yr astudiaeth achos trwy'r cyfweiliadau. Yn ogystal, trafodwyd y lleoliadau a nodwyd fel astudiaethau achos posibl gydag aelodau'r panel cyngori i geisio cynrychiolaeth o gyd-destunau amrywiol, gan gynnwys amrywiadau mewn cefndir economaidd-gymdeithasol, cyfrwng iaith (Cymraeg a Saesneg), a lefelau amddifadedd.

Roedd casglu data ar gyfer yr astudiaethau achos yn cynnwys dull aml-ddull h.y., cyfweiliadau lled-strwythuredig, arsylwadau ac adolygu dogfennau. Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol ym mhob lleoliad, gan gynnwys penaethiaid, arweinwyr ymddygiad, ac athrawon dosbarth a rhieni. Lle bo'n bosibl, cynhaliwyd arsylwadau uniongyrchol o arferion ystafell ddosbarth ac ysgol gyfan i ddarparu mewnwelediad cyd-destunol i strategaethau rheoli ymddygiad. Adolygwyd polisïau ysgol, cynlluniau ymddygiad, a chofnodion ymyrraeth berthnasol i ddeall y fframwaith sy'n arwain arferion ym mhob lleoliad.

Er mwyn nodi patrymau a themâu ar draws data'r astudiaethau achos, defnyddiwyd dadansoddiad thematig yn dilyn proses chwe cham Braun a Clarke (2006) o ddadansoddi thematig. Dadansoddwyd pob astudiaeth achos yn annibynnol cyn syntheseiddio canfyddiadau i nodi nodweddion cyffredin, gwahaniaethau, a mewnwelediadau unigryw ar draws y lleoliadau.

Cafwyd cymeradwyaeth foesegol a chaniatâd gwybodus yn unol â phrotocol y brifysgol a phwyllgor moeseg berthnasol. Hysbyswyd yr holl gyfranogwyr am natur yr astudiaeth, eu hawliau fel cyfranogwyr, a'r mesurau a gymerwyd i sicrhau cyfrinachedd ac anhysbysrwydd, yn unol â chanllawiau moesegol Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA, 2024).

Yn ogystal, cyflwynwyd hysbysiad preifatrwydd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i'r holl gyfranogwyr. Roedd yr hysbysiad hwn yn manylu ar ddiben casglu data, sail gyfreithiol ar gyfer prosesu, arferion rhannu data, cyfnodau cadw data, hawliau cyfranogwyr o dan gyfreithiau diogelu data, a gwybodaeth gyswllt ar gyfer ymholiadau pellach. Roedd hyn yn sicrhau tryloywder a chydymffurfiaeth â rheoliadau diogelu data, yn sefydlu cyfrinachedd ac anhysbysrwydd ac yn diogelu gwybodaeth bersonol cyfranogwyr trwy gydol y broses ymchwil.

Canfyddiadau

Adolygiad cyflym

Nodwyd cyfanswm o 12 astudiaeth ar ôl sgrinio cychwynnol a llawn, a'r gweithdrefnau asesu ansawdd a amlinellwyd uchod. Cyflwynir crynodeb o'r holl bapurau yn Atodiad 7. O'r 12 astudiaeth a nodwyd, roedd un o'r DU, naw o'r Unol Daleithiau, a dwy o Norwy. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r astudiaethau hefyd gyda disgyblion cynradd neu elfennol⁴, gyda dim ond un gyda disgyblion oedran uwchradd yn unig. Ni nodwyd unrhyw astudiaethau mewn ysgolion AAA nac UCDAu.

Nodwyd tri dull ymyrraeth ar draws y 12 papur: Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol Ysgol Gyfan (SWPBS), Cwricwlwm Cymdeithasol ac Emosiynol (CCE), a CCE ac Ymarfer Adferol gyda'i gilydd. O'r tair ymyrraeth hynny, SWPBS oedd yr un mwyaf cyffredin gyda 10 papur wedi'u canfod. O'r 10 astudiaeth hynny, roedd gan naw newid cadarnhaol mewn o leiaf un o'i fesurau canlyniad. Roedd mesurau canlyniad yn amrywio o waharddiadau a diarddeliadau i fesurau gwahanol o ymddygiadau a adroddwyd gan ddisgyblion ac ymddygiad a adroddwyd gan athrawon.

Roedd tri phapur yn defnyddio mesurau canlyniadau ar gyflawniad academiaidd, gyda dim ond un yn nodi newid ystadegol arwyddocaol yn un o'i ddau brawf. Y mesurau mwyaf cyffredin oedd adroddiadau amrywiol athrawon o ymddygiadau amhriodol, Atgyfeiriadau Disgyblu Swyddfa (ADSau), ac ataliadau (gweler Atodiad 8).

Defnyddiodd deg o'r 12 papur a nodwyd yn yr adolygiad cyflym ddull Haen 1 SWPBS fel dull gweithredu ysgol gyfan gyffredinol. Cynhaliwyd wyth o'r 10 ymyrraeth yn yr UDA a dau yn Norwy. Roedd chwech o'r wyth papur a osodwyd yn yr UDA yn defnyddio ysgolion elfennol, tra bod dau yn ystyried data o ysgolion elfennol, canol ac uwchradd. Cynhaliwyd y ddwy ymyrraeth SWPBS yn Norwy mewn ysgolion elfennol hefyd. Roedd yr holl bapurau'n cynnwys mesurau cywirdeb gweithredu ar gyfer ymyrraeth SWPBS. Defnyddiwyd amrywiaeth eang o fesurau canlyniad i farnu effeithiolrwydd yr ymyrraeth gan gynnwys adroddiadau disgyblion am ymddygiadau amhriodol, adroddiadau athrawon am ymddygiadau amhriodol, adroddiadau athrawon am ymddygiadau cadarnhaol,

⁴ Yn yr adroddiad hwn, mae 'disgyblion sy'n oedran elfen' yn cyfeirio at ddisgyblion yn yr UD sydd rhwng 5-11 oed, a 'disgyblion yn oedran cynradd' yn cyfeirio at blant sy'n arferol yn ysgolion gynradd y DU rhwng 4-11 oed.

cofnodion digwyddiadau ymddygiadol, gwaharddiadau, diarddeliadau, mesurau hinsawdd yr ysgol, a chyflawniad academiaidd disgyblion.

Cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol ar draws yr ysgol

Mae SWPBS yn ddull aml-haen ar gyfer yr holl ddisgyblion a staff o fewn cymuned ysgol. Mae haen 1 yn ddull atal cyffredinol sy'n nodi disgwyliadau ar gyfer ymddygiadau cymdeithasol ar draws yr ysgol ond sydd hefyd yn dysgu'r ymddygiadau angenrheidiol i ddisgyblion er mwyn gallu eu bodloni. Mae ffocws ar feithrin diwylliant cymdeithasol a darparu dysgu cymdeithasol ac emosiynol i bawb (Bradshaw, Waasdorp a Leaf, 2012). Mae haen dau yn cynnwys mwy o gefnogaeth i grwpiau o ddysgwyr y nodwyd eu bod mewn perygl o ddatblygu ymddygiadau heriol, tra bod haen tri yn gweld datblygu cynlluniau cymorth unigol yn seiliedig ar swyddogaethau ar gyfer dysgwyr penodol (Horner et al., 2009). Haen 1 SWPBS yw ffocws yr adolygiad cyflym hwn. Mae elfennau SWPBS yn cael eu hunigoli gan bob ysgol i gyd-fynd â'u demograffig a'u hanghenion penodol, tra'n cadw at nifer o egwyddorion allweddol dull ysgol gyfan:

- Yn canolbwyntio ar atal – Yn pwysleisio strategaethau rhagweithiol i atal ymddygiad sy'n tarfu ac yn herio.
- Disgwyliadau wedi'u diffinio'n glir – Sefydlu ac addysgu disgwyliadau ymddygiad cymdeithasol cadarnhaol cyson ar draws pob lleoliad.
- Atgyfnerthu cyson – Yn defnyddio atgyfnerthu cadarnhaol i annog ymddygiadau cymdeithasol.
- Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata – Yn dibynnu ar ddata i fonitro cynnydd ac arwain cefnogaeth ac ymateb i gynnydd dysgwyr.
- Parhad o gefnogaeth – Yn darparu lefelau cynyddol o gefnogaeth yn seiliedig ar anghenion dysgu myfyrwyr.
- Ymglymiad ysgol gyfan – Yn ymgysylltu â'r holl staff, myfyrwyr a theuluoedd wrth greu amgylcheddau cefnogol a pherthnasoedd cryf.

Mae nodweddion a rennir yn cynnwys sylfaen o weithrediad ysgol gyfan gyffredinol; ffocws rhagweithiol; datblygu hinsawdd ysgol gadarnhaol; cysondeb ac eglurder; arfer sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd; atal yn hytrach na ymateb; llais a chyfranogiad disgyblion; datblygiad a lles staff; a myfyrio wedi'i lywio gan ddata.

Un elfen o haen 1 SWPBS yw pwyllgor sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob rôl swydd ar draws tîm staff yr ysgol a llais y dysgwr. Mae'r pwyllgor yn goruchwyllo

gweithrediad cychwynnol ac adolygiad parhaus o SWPBS ar draws yr ysgol i sicrhau bod y dull wedi'i ddatblygu ar y cyd a'i fod yn berthnasol i'r cyd-destun.

Mae set fach o dri i bump o werthoedd sydd wedi'u datgan yn gadarnhaol (er enghraifft, 'Byddwch yn barchus, byddwch yn gyfrifol, byddwch yn ddiogel') yn cael eu nodi ac yna'n cael eu trosi'n rheolau neu ymddygiadau penodol ar draws pob rhan o'r ysgol - er enghraifft, mae bod yn barchus yn yr ystafell ddosbarth yn golygu peidio â siarad tra bod eraill yn siarad, mae bod yn ddiogel yn y coridor yn golygu cerdded ar y chwith, ac mae bod yn gyfrifol yn y maes chwarae yn golygu dod i mewn pan fydd y gloch yn canu. Mae rheolau'n cael eu datgan yn gadarnhaol, ac mae cyfarwyddyd penodol gan gynnwys rhesymeg, ymarferion chwarae rôl sydd wedi'u hanelu at ddatblygu sgiliau, yn rhan o'r cwricwlwm addysgu (Gage et al., 2018). Mae'r gwerthoedd a'r rheolau hyn yn cael eu penderfynu gan y pwyllgor i gyd-fynd orau â'u cyd-destun lleol penodol.

Mae elfennau eraill yn cynnwys cydnabod ymddygiadau priodol yn aml, tra hefyd yn cael continwmm clir o ganlyniadau cyson ar gyfer ymddygiad amhriodol. Mae'r continwmm hwn yn cynnwys rheolau clir ynghylch pa ymddygiadau y disgwylir i athrawon eu trin yn yr ystafell ddosbarth, yn erbyn ymddygiadau y mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn delio â nhw, pryd y dylid uwch gyfeirio achosion a beth yn union y disgwylir i staff ei wneud ynghylch yr ymddygiadau (Gage et al., 2019). Mae'r systemau ymddygiad hyn wedi'u cynllunio gan randdeiliaid o bob rhan o gymuned yr ysgol, gall hyn gynnwys uwch reolwyr, athrawon a chynorthwyrwyr addysgu, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr, ac aelodau eraill o staff sy'n ymwneud â'r ysgol.

Cynhaliodd Gage et al. (2018, 2019, 2020) dri dadansoddiad ar wahân yn y tri phapur a ddyfynnwyd ar draws tair talaith yn yr Unol Daleithiau lle'r oedd SWPBS yn cael ei ddefnyddio. Fe wnaethant baru ysgolion a oedd yn defnyddio SWPBS ag ysgolion nad oeddent yn defnyddio SWPBS. Ym mhob un o'r tair talaith gwelsant ostyngiad ystadegol arwyddocaol mewn gwaharddiadau mewn ysgolion ymyrraeth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw effaith arwyddocaol ar waharddiadau. Gwelodd Bradshaw, Mitchell a Leaf (2010) a Ward a Gersten (2013) ostyngiad ystadegol arwyddocaol mewn gwaharddiadau ar gyfer ysgolion SWPBS o'i gymharu ag ysgolion rheoli. O'r chwe astudiaeth SWPBS a ddefnyddiodd waharddiad fel mesur canlyniad, adroddodd pump am newid cadarnhaol ystadegol. Fodd bynnag, gwelodd yr astudiaeth a oedd yn weddill newid cadarnhaol ystadegol arwyddocaol yng ngraddfeydd athrawon o ymddygiad amhriodol disgyblion a graddfeydd athrawon o ymddygiad academiaidd disgyblion.

Adroddwyd hefyd am ostyngiad ystadegol arwyddocaol mewn ymddygiadau amhriodol disgyblion fel yr adroddwyd gan athrawon mewn ysgolion SWPBS yn Sørlie ac Ogden (2015), Sørlie et al. (2018), a Waasdorp Bradshaw a Leaf (2012). Defnyddiodd Ward a Gersten (2013) hefyd adroddiadau athrawon am ymddygiadau amhriodol, ochr yn ochr ag adroddiadau disgyblion am ymddygiadau amhriodol, ond ni adroddwyd unrhyw newid sylweddol o fesurau cyn ymyrraeth i ôl-ymyrraeth.

Mae SWPBS yn cyd-fynd yn agos â'r egwyddorion a nodir yn y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol a'r Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol (Llywodraeth Cymru, 2021, 2022), gan fod y ddau fframwaith yn pwysleisio ethos cyffredinol, ataliol a diwylliant cyson, sy'n cael ei yrru gan berthnasoddedd sy'n cefnogi pob dysgwr.

Arfer Adferol a CCE (cyfunol)

Roedd un papur a nodwyd yn defnyddio dull ymyrryd sy'n cyfuno arferion adferol ac CCE. Darparwyd yr CCE fel cyfres o gynlluniau gwersi a sleidiau â llaw, gyda 5-10 awr y flwyddyn o gynnwys. Cyflwynwyd y gwersi hyn gan athrawon yr ysgol. Ochr yn ochr â'r CCE, hyfforddwyd staff yr ysgol mewn sawl sesiwn ar draws y flwyddyn mewn arferion adferol. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio iaith barchus i drafod digwyddiadau ymddygiadol gyda disgyblion, defnyddio amseroedd cylch i feithrin perthnasoddedd â disgyblion, a hyfforddiant ar sut i ddefnyddio cynadleddau adferol i fynd i'r afael â digwyddiadau difrifol o ymddygiad gyda disgyblion. Hwn oedd yr unig bapur a nodwyd yn yr adolygiad hwn a gynhaliwyd mewn lleoliad yn y DU ac a edrychodd ar newid ymddygiad gyda disgyblion oed ysgol uwchradd yn unig. Gwelodd yr astudiaeth ganlyniadau cymysg o ran ei heffeithiolrwydd o ran newid ymddygiad. Ni chafwyd unrhyw effeithiau ar adroddiadau disgyblion o ymddygiad ymosodol, ond mesurwyd effaith arwyddocaol fach ar adroddiadau disgyblion o fwlio ar ôl yr ymyrraeth. Oherwydd bod ymchwil yn gyfyngedig i'r dull hwn, dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canfyddiadau.

Cwricwlwm Cymdeithasol ac Emosiynol (y Rhaglen Gweithredu Gadarnhaol)

Roedd un papur a nodwyd yn defnyddio CCE fel dull ymddygiad cyffredinol mewn ysgolion. CCE â llaw yw'r Rhaglen Gweithredu Gadarnhaol, sydd hefyd

yn cynnwys datblygu hinsawdd ysgol gadarnhaol trwy hyfforddi athrawon ac aelodau eraill o staff. Roedd y dull hwn hefyd yn cynnwys pwyllgor i oruchwylio'r gweithrediad sy'n cynnwys aelodau amrywiol o gymuned yr ysgol. Mae'r cwricwlwm dilyniannol yn cynnwys 140 o wersi 15 i 20 munud bob blwyddyn academiaidd a gyflwynir gan yr athro/athrawes ystafell ddosbarth.

Mae'r gwersi'n ymdrin yn fras â chwe phwnc: hunan-gysyniad, gweithredoedd corfforol a deallusol, gweithredoedd cymdeithasol/emosiynol ar gyfer hunan-gyfrifoldeb, cyd-dynnu ag eraill, bod yn onest gyda chi'ch hun ac eraill, a hunan-welliant parhaus. Mae'r gwersi'n cynnwys gemau, chwarae rôl, ac ymarfer sgiliau, yn ogystal â deialogau agored rhwng disgyblion ac athrawon. Roedd y rhaglen hefyd yn cynnwys deunyddiau amrywiol i helpu i hwyluso hinsawdd ysgol gyfan, ac i atgyfnerthu'r chwe thestun dysgu ar draws yr ysgol. Derbyniodd y staff hyfforddiant blynyddol. Canfu Snyder et al. (2013) mai dim ond yr ysgolion a ddefnyddiodd yr ymyrraeth a ddangosodd welliannau clir o ran graddio ymddygiadau priodol ac amhriodol gan fyfyrwyr ac athrawon, er bod pob graddfa ymddygiad yn dangos rhywfaint o newid cadarnhaol. Gan fod ymchwil yn gyfyngedig i'r dull hwn, dylid bod yn ofalus iawn wrth ganfod y canfyddiadau.

Cyfweliadau a grwpiau ffocws

Canlyniadau ar gyfer gweithlu ysgolion ac arweinwyr Awdurdodau Lleol

Rhoddodd y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws fewnwelediadau cyfoethog ac ansoddol i realiti rheoli ymddygiad mewn ysgolion ledled Cymru. Rhannodd y cyfranogwyr eu profiadau, eu safbwyntiau a'u heriau, gan gynnig dealltwriaeth fanwl o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad dysgwyr ac effeithiolrwydd strategaethau cyfredol.

Daeth themâu allweddol i'r amlwg yn gyson ar draws gwahanol leoliadau addysgol — gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd, Unedau Cyfeirio Disgyblion, a chyd-destunau addysg arbennig — gan amlygu pryderon cyffredin a meysydd posibl ar gyfer gwella. Crynodeb o'r themâu a'r isthemâu yn cynnwys:

Thema A. Newid ymddygiad a lles meddyliol dysgwyr ar ôl y pandemig

a1. Cynnydd yn amllder ac yn ddwyster ymddygiadau.

a2. Tueddiadau cyn y pandemig wedi'u gwaethygu gan y pandemig.

a3. Bylchau datblygiadol a diffyg parodrwydd yn effeithio ar ymddygiad.

Thema B. Ymagwedd ysgol-gyfan at feithrin diwylliant ysgol cadarnhaol

b1. Meithrin perthnasoedd cadarnhaol, gan gynnwys:

- Adnabod y dysgwr
- Ymagweddau sy'n ystyriol o drawma

b2. Cysondeb, tryloywder, ac ymagweddau rhagweithiol.

b3. Gweithio amlasiantaethol cydweithredol

Thema C. Barn am arferion aneffeithiol o ran rheoli ymddygiad

c1. Ymagweddau gorfodol a chosbol

c2. Ymagweddau adweithiol, anghyson ac annisgwyl

Thema A: Newid ôl-bandemig yn ymddygiad ac iechyd meddwl dysgwyr

Gofynnwyd i gyfranogwyr, 'Sut mae'r ymddygiadau y mae ysgolion yn eu gweld nawr yn wahanol i normau cyn-bandemig?'. Mae'r canfyddiadau'n dangos newid sylweddol yn neinameg yr ystafell ddosbarth, gyda heriau ymddygiadol ac iechyd meddwl yn dod yn fwy amlwg.

"Byddwn i'n dweud ei fod yn fwy cyffredin, yn fwy, a fwy dwys yn amlach". (Cyfweliad 12, DDdY)

"Rydyn ni wedi gweld lefelau uchel o bryder". (Cyfwelai 10, Ysgol Gynradd)

Is-thema a1: Cynnydd yn amllder a dwyster ymddygiadau

Adroddodd yr holl gyfranogwyr a gyfwelwyd eu bod yn teimlo bod newid wedi bod yn ymddygiad dysgwyr ac iechyd meddwl ar ôl y pandemig. Dywedodd y cyfranogwyr eu bod wedi sylwi ar gynnydd yn amllder a dwyster ymddygiadau mewn ysgolion.

"Mae bron fel pe bai popeth ychydig yn fwy eithafol. Mae ychydig mwy o bopeth. Felly, dydw i ddim yn meddwl ein bod ni'n gweld unrhyw

ymddygiadau nad ydym erioed wedi'u gweld o'r blaen. Ond dwi'n credu ein bod ni'n gweld mwy o'r ymddygiadau hynny, ac o bosibl mae mwy o blant yn ei wneud". (Cyfwelai 2, Ysgol Gynradd)

"Byddwn i'n dweud yn bendant ein bod ni wedi cael ymddygiad mwy heriol ac aflonyddgar ers COVID." (Cyfweliad 9, DDdY)

Is-thema a2: Tueddiadau cyn-bandemig wedi'u gwaethygu gan y pandemig

Eglurodd pump o'r 19 o gyfranogwyr a gafodd eu cyfweld eu bod yn teimlo bod problemau ymddygiad mewn ysgolion eisoes yn dod i'r amlwg cyn i bandemig Covid-19 ddechrau. Gan egluro eu bod yn teimlo bod y pandemig wedi dwysáu tueddiadau a fodolai eisoes mewn ymddygiad a heriau myfyrwyr ond nad oedd o reidrwydd yn ysgogi heriau.

"... roedd yna ffenomen a oedd wedi dechrau cyn y pandemig, a oedd efallai wedi'i chyflymu gan y pandemig. Mae'n fwy amlwg ar ôl dod yn ôl ac roedd hynny'n ymwneud ag ymddygiad plant, galluoedd a sgiliau plant wrth ymuno â'r ysgol, cefnogaeth rhieni ac ymgysylltiad, ac maen nhw i gyd yn anoddach nawr nag erioed yn fy ngyrfa i. Ond allwn i ddim dweud y byddwn i'n priodoli hynny i gyd, neu hyd yn oed y rhan fwyaf ohono, i'r pandemig, dwi'n credu bod y problemau hynny wedi dechrau cyn y pandemig." (Cyfwelai 4, Cynradd)

Is-thema a3: Bylchau datblygiadol a diffyg parodrwydd yn effeithio ar ymddygiad

"Dw i'n meddwl bod llawer o amser lle mae plant iau yn arbennig wedi colli allan ar ochr gymdeithasol pethau. Ac rydyn ni'n gweld mwy o eithafion yn is i lawr oherwydd problemau gyda chyfathrebu." (Cyfwelai 1, Cynradd)

"O'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, roedd yn rhaid i ni ailgynllunio'r ysgol gyfan ar gyfer y grŵp blwyddyn hwnnw. Roedd yn rhaid i ni eu ffrydio ar gyfer sillafu, a hefyd, roedd yn rhaid i ni deilwra i'w hanghenion. Newidion ni'r ffordd roedden ni'n addysgu Saesneg. Roedd yn rhaid i ni fynd yn ôl i'r pethau sylfaenol wrth addysgu ffoneg, gan ddechrau gyda dysgu synau'r llythrennau iddyn nhw." (Cyfwelai 3, Ysgol Gynradd).

Thema B: Dull ysgol gyfan o adeiladu diwylliant ysgol cadarnhaol

Gofynnwyd i gyfranogwyr pa ddulliau o reoli ymddygiad ac atal ac ymateb i ymddygiad heriol dysgwyr sydd, yn eu barn nhw, yn fwyaf effeithiol o ran eu harfer ystafell ddosbarth eu hunain.

Is-thema b1: Adeiladu perthnasoedd cadarnhaol

"Felly, mae'n ymwneud â meithrin y berthynas honno a sicrhau bod y plentyn yn gwybod fy mod i eisiau gwneud y gorau y gallaf iddyn nhw." (Cyfweliad 10, Ysgol Gynradd)

"Perthnasoedd, cyfathrebu. Yr amgylchedd. Ie, mae'r cyfan yn gorgyffwrdd â'i gilydd, mae perthnasoedd yn hanfodol. Nid dim ond sut rydyn ni'n cyfathrebu â'r disgybl sy'n bwysig, ond edrych sut mae'r corff yn cyfathrebu â ni." (Cyfweliad 8, ADY)

"Rydym hefyd yn gwneud yr offer ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person gyda phob plentyn, fel bod athrawon yn dod i'w hadnabod, ac yn eu hadnabod yn dda iawn, wyddoch chi, beth sy'n eu gwneud nhw'n hwyl, beth sy'n eu gwneud nhw'n cael diwrnod da, beth sy'n eu gwneud nhw'n cael diwrnod drwg." (Cyfwelai 1, Ysgol Gynradd)

"Rydw i wedi bod ar yr hyfforddiant [trawma gwybodus], rydych chi'n meddwl am bethau fel, wyddoch chi, PACE5, sy'n rhywbeth rydw i wedi'i ddweud. Mae rhywbeth rydw i'n ei ddefnyddio yn fy mhreactis, wyddoch chi, rydw i'n meddwl ei fod fel gwrando ar gymorth ymddygiad a'r ymarfer ysgolion sy'n cael ei hysbysu gan drawma, sydd bellach yn wirioneddol fawr, wyddoch chi, mae gennym ni aelod o staff yma gyda diploma ynddo." (Cyfwelai 1, Cynradd)

Is-thema b2: Cysondeb, tryloywder a dulliau rhagweithiol

"Mae mor bwysig bod staff yn defnyddio dull cyson. Mae angen i'r ysgol gyfan fod ar yr un dudalen gyda'r ffordd yr ydym yn ymateb i ymddygiad myfyrwyr. Rydych chi'n gwybod. Ni allwn fod yn chwarae plismon da

⁵ Datblygwyd y dull hwn gan Dr. Dan Hughes fel rhan o Seicotherapi Datblygiadol Dyadig (DDP), a ddefnyddir i gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi profi trawma, anawsterau ymlyniad, neu esgeulustod. Mae'r acronym yn sefyll am Chwarëusrwydd, Derbyn, Chwilyfrydded a Chydymdeimlo (Playfulness, Acceptance, Curiosity and Sympathy.)

plismon drwg. Mae angen iddo fod yn gyson, teg a rhesymol. Mae'n rhaid i ni adnabod ein plant yn drylwyr." (Cyfweliad 15, Uwchradd)

Is-thema b3 Gweithio amlddisgyblaethol cydweithredol

"Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn dulliau sy'n seiliedig ar drawma a gwaith amlddisgyblaethol. Rydym wedi penodi therapydd iaith a lleferydd a therapydd galwedigaethol sy'n arbenigo mewn materion synhwyrdd ac mae athrawon yn canolbwyntio ar Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol. Pawb yn gweithio ar y cyd." (Cyfweliad 11, Awdurdod Lleol)

Thema C: Barn am arferion rheoli ymddygiad aneffeithiol

Mynegodd cyfranogwyr farn amrywiol am arferion rheoli ymddygiad aneffeithiol, gan dynnu sylw at ddau brif bryder: dulliau gorfodol a chosbol, a strategaethau adweithiol, anghyson, neu anrhagweladwy. Mae'r ymatebion yn pwysleisio'r angen am symudiad tuag at ddulliau empathig, cyson, ac unigoledig, yn ogystal â chydabod cyfyngiadau dulliau anhyblyg, un maint i bawb.

Is-thema c1: Dulliau gorfodol a chosbol

Beirniadaeth a gododd dro ar ôl tro ymhlith cyfranogwyr oedd aneffeithiolrwydd strategaethau gorfodol neu gosbol, fel gweiddi, bychanu, neu or-ddibynnu ar fesurau gwaharddol. Nododd cyfranogwyr y gallai'r dulliau hyn arwain at gydymffurfiaeth tymor byr ond yn y pen draw niweidio perthnasoedd a gwneud ychydig iawn i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau ymddygiad.

"Dydw i ddim yn meddwl bod pethau fel codi eich llais a gweiddi ar blant yn gweithio. Mae'n aneffeithiol... mae negatiffedd yn dinistrio perthnasoedd sydd gennych chi gyda disgyblion." (Cyfwelai 1)

"Dydy gor-ddibynnu ar gosb neu wahardd... ddim yn gweithio yn y tymor hir. Efallai y bydd yn cael cydymffurfiaeth ar y pryd, ond dydy e ddim yn dysgu dim i'r plentyn am reoli ei ymddygiad ei hun." (Cyfwelai 19)

Is-thema c2: Dulliau adweithiol, anghyson ac anrhagweladwy

"Yn aml, mae o gwmpas, heb gael yr un disgwyliadau ar gyfer y plentyn hwnnw. Neu'n dweud, gwnewch bethau mewn ffordd wahanol i weddill y dosbarth." (Cyfwelai 3, Cynradd)

Astudiaethau achos

Cyflwynir pedair astudiaeth achos, pob un yn cynrychioli cam a gwasanaeth penodol mewn addysg, gan roi mewnwelediad gwerthfawr i reoli ymddygiad yn effeithiol. Mae'r astudiaeth achos gyntaf yn canolbwyntio ar ganolfan asesu gynhwysol ac ymyrraeth gynnar, gan arddangos strategaethau wedi'u teilwra a gynlluniwyd i gefnogi dysgwyr â'r anghenion mwyaf cymhleth. Mae'r ail yn archwilio ysgol gynradd, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ymyriadau cynnar a dulliau ysgol gyfan wrth feithrin ymddygiadau cadarnhaol yn ystod blynyddoedd sylfaenol addysg. Mae'r drydedd astudiaeth achos yn archwilio lleoliad ADY dwyieithog arbenigol, pob oed. Yn olaf, mae'r bedwaredd astudiaeth achos yn archwilio ysgol uwchradd, gan fynd i'r afael â heriau unigryw llencyndod a'r strategaethau arloesol a ddefnyddir i reoli materion ymddygiad yn y cyfnod hollbwysig hwn.

Astudiaeth Achos 1: Canolfan Asesu ac Ymyrraeth Gynnar yr Awdurdod Lleol – 'Noddfa'

Cefndir / Cyd-destun

Mae Noddfa yn ganolfan asesu ac ymyrraeth gynnar gynhwysol sydd wedi'i lleoli yn Wrecsam, Cymru. Mae'n gweithredu o fewn Awdurdod Lleol Wrecsam, gan gefnogi plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol y tu hwnt i addysg brif ffrwd. Yn hytrach na defnyddio model mewnol sefydlog, mae Noddfa yn darparu cymorth hyblyg, seiliedig ar allgymorth i ysgolion, teuluoedd a disgyblion, gyda ffocws cryf ar gynhwysiant ac ymyrraeth gynnar.

Beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda / Nodweddion allweddol yr ymarfer

Mae Noddfa'n arbenigo mewn helpu ysgolion i wreiddio a chynnal strategaethau ymddygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wedi'u hategu gan fframwaith Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol (CYC). Mae nodweddion allweddol yn cynnwys ymarfer sy'n seiliedig ar drawma, dulliau adferol, ac ymrwymiad i'r Dull Ysgol Gyfan o Les Emosiynol a Meddyliol (WSAEMW). Mae'r ganolfan yn cynnig ymyriadau personol i ddisgyblion ochr yn ochr â strategaethau ysgol gyfan i adeiladu amgylcheddau dysgu cynhwysol, strwythuredig. Cefnogaeth ychwanegol therapi iaith a lleferydd, therapi galwedigaethol, arbenigwyr iaith a llythrennedd a Seicoleg Addysg.

Sut mae'r lleoliad yn gweithredu'r arfer

Mae staff yn derbyn datblygiad proffesiynol parhaus mewn CYC, gofal wedi'i lywio gan drawma, a strategaethau iechyd meddwl. Mae cydlynwyr lles ac ymarferwyr ADY yn arwain ar gynllunio a gweithredu wedi'i deilwra. Mae Noddfa yn cefnogi ysgolion trwy fodelu arfer, hyfforddi, a chydweithio â gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys swyddogion heddlu ysgolion. Mae ymgysylltiad rhieni yn cael ei feithrin trwy weithdai, cyfarfodydd cynnydd, a chyfleoedd i gymryd rhan weithredol. Anogir disgyblion i gymryd rhan mewn cynghorau myfyrwyr a mentora cymheiriaid, gan roi llais iddynt wrth siapio eu hamgylchedd.

Effaith / Deilliannau

Mae'r ganolfan yn adrodd am ostyngiadau sylweddol mewn digwyddiadau ymddygiadol a gwaharddiadau, ochr yn ochr â phresenoldeb gwell ac ymgysylltiad disgyblion gwell. Mae disgyblion yn dangos gwytnwch emosiynol gwell a mwy o allu i hunanreoleiddio. Mae staff yn adlewyrchu ymdeimlad cryf o hyder wrth ddefnyddio strategaethau cynhwysol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r lleoliad yn parhau i esblygu trwy adolygu polisïau'n rheolaidd a diwylliant o arfer myfyriol.

Dysgu allweddol / Beth all eraill ei ddysgu

Mae Noddfa yn dangos sut y gall model cymorth hyblyg, seiliedig ar allgymorth, wreiddio CYC ac arferion adferol yn llwyddiannus ar draws ysgolion. Mae galluogwyr allweddol yn cynnwys datblygiad proffesiynol cryf, cydweithio traws-asiantaethol, ac integreiddio lles ym mhob agwedd ar y ddarpariaeth. Gall lleoliadau eraill ddysgu o bwyslais Noddfa ar hyfforddi, cynllunio personol a grymuso llais y disgybl a'r rhiant.

Astudiaeth achos 2: Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr

Cefndir / Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr, sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd, Cymru, yn ysgol gynradd Gatholig drefol gyda phoblogaeth amrywiol o fyfyrwyr. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer demograffig cymysg, gan gynnwys nifer nodedig o ddisgyblion ag ADY. Gyda sylfaen gref mewn gwerthoedd Catholig, mae Ysgol Sant Pedr yn rhoi pwyslais sylweddol ar feithrin ymddygiad

cadarnhaol a hyrwyddo lles emosiynol. Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu ei hymrwymiad i gynhwysiant, safonau uchel, a pharch at bob aelod o'i chymuned.

Beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda / Nodweddion allweddol yr ymarfer

Mae Ysgol Sant Pedr wedi datblygu polisi ymddygiad clir, sy'n seiliedig ar werthoedd, sy'n cyd-fynd â'i hethos Catholig, gan ddefnyddio technegau syml a chyson i gefnogi ymddygiad cadarnhaol ar draws cymuned yr ysgol. Mae un dull o'r fath yn cynnwys defnyddio strategaeth STAR i ddatblygu arferion sylw a gyflwynwyd yn 2020 ac a ystyrir yn un o sylfeini allweddol diwylliant cadarnhaol yn yr ysgol. Ystyr STAR yw:

- Eisteddych i fyny i edrych â diddordeb a pharhewch i ymgysylltu
- Dilynwch y siaradwr i ddangos i bobl eraill fod eu syniadau'n bwysig
- Gwerthfawrogwch syniadau eich cyd-ddisgyblion trwy nodio, gwenu, ac yn y blaen
- Ail-ymadroddwch eiriau'r person a siaradodd o'r blaen i ddangos eich bod yn gwrando.

Mae ymddygiad cadarnhaol yn cael ei ddathlu trwy dystysgrifau, cardiau post cartref, a gwasanaethau ysgol, sy'n atgyfnerthu rhinweddau megis chwifrydedd, parch, ac ymgysylltiad gweithredol

Yn ogystal â'i phwyslais ar arferion ymddygiad cadarnhaol, mae Ysgol Sant Pedr yn rhoi ffocws cryf, strategol ar addysgu llythrennedd, iaith a darllen yn benodol ar draws y cwricwlwm. Mae arweinwyr yn yr ysgol yn cydnabod y corff sylweddol o dystiolaeth sy'n dangos bod ymgysylltiad academiaidd — yn enwedig mewn darllen ac iaith — yn gysylltiedig yn agos â rheoleiddio emosiynol dysgwyr, hunan-effeithiolrwydd, a'u gallu i lwyddo o fewn amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Wrth wraidd strategaeth ddarllen yr ysgol mae dau fframwaith damcaniaethol sydd wedi'u hen sefydlu: The Simple View of Reading (Gough & Tunmer, 1986), sy'n pwysleisio pwysigrwydd cyfunol datgodio a deall iaith, a Scarborough's Reading Rope (Scarborough, 2001), sy'n dangos sut mae llinynnau lluosog o ddealltwriaeth iaith ac adnabod geiriau yn plethu gyda'i gilydd i gefnogi darllen medrus. Gan ddefnyddio'r modelau hyn, mae staff yn rhoi cyfarwyddyd strwythuredig, penodol ar waith sy'n ymateb i gamau datblygu dysgwyr ac anghenion llythrennedd penodol. Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddyd ffoneg systematig, datblygu geirfa, a chyfleoedd i ymarfer iaith lafar a strategaethau deall ar draws y cwricwlwm. Trwy wreiddio'r dull hwn ar draws yr ysgol gyfan, nid yn unig mae Ysgol Sant Pedr yn cefnogi

cyrhaeddiad academiaidd ond mae hefyd yn meithrin y cyfathrebu, y ffocws a'r hyder sy'n sail i ymddygiad cadarnhaol dysgwyr. Mae staff yn adrodd bod yr aliniad hwn rhwng llythrennedd a datblygiad ymddygiad wedi bod yn allweddol i leihau rhwystredigaeth, gwella ymgysylltiad yn yr ystafell ddosbarth, a chryfhau ethos cynhwysol a pharchus cyffredinol yr ysgol.

Mae'r ysgol hefyd wedi integreiddio lles emosiynol i'w harferion dyddiol. Mae ystafell fugeiliol bwrpasol yn darparu lle ar gyfer myfyrwyr a chefnogaeth, tra bod technegau "Dysgu Fel Pencampwr / Teach Like a Champion" yn cael eu defnyddio i sicrhau cysondeb ar draws ystafelloedd dosbarth. Mae'r dull yn cydfynd yn agos â'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol (WSAEMW), yn enwedig yn ei gefnogaeth i ddisgyblion ag ADY.

Sut mae'r lleoliad yn rhoi'r arfer ar waith

Mae strategaethau ymddygiad yn cael eu harwain gan y Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth, gyda rolau allweddol yn cael eu chwarae gan staff gofal bugeiliol, cynorthwyrwyr addysgu, a chydlynwyr lles. Mae staff yn darparu cefnogaeth unigol i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol, gan sicrhau cysondeb a thegwch. Mae ymgysylltiad rhieni yn flaenoriaeth, gyda theuluoedd yn cael eu cynnwys trwy ddiweddariadau rheolaidd, cardiau post dathlu, a gwahoddiadau i ddiwyddiadau'r ysgol.

Mae llais y disgybl wedi'i wreiddio yn niwylliant yr ysgol, gyda chynghorau myfyrwyr a thrafodaethau anffurfiol yn cyfrannu at lunio disgwyliadau. Mae diwylliant o gefnogaeth cymheiriaid a rhannu cyfrifoldeb yn cael ei hyrwyddo'n weithredol ymhlith dysgwyr.

Effaith / Deilliannau

Mae Ysgol Sant Pedr yn adrodd am ostyngiad amlwg mewn digwyddiadau ymddygiadol ac atgyfeiriadau bugeiliol, ochr yn ochr â ffocws gwell ar yr ystafell ddosbarth. Mae disgyblion wedi'u canmol am eu hymddygiad ar deithiau preswyl allanol, gan amlygu effaith safonau cyson. Mae gwelliannau hefyd wedi'u harsylwi mewn lles disgyblion, presenoldeb, a chefnogaeth gynhwysol i'r rhai ag ADY.

Dysgu allweddol / Yr hyn y gall eraill ei ddysgu

Mae Ysgol Sant Pedr yn dangos sut y gall dull ysgol gyfan sy'n cael ei yrru gan werthoedd — ynghyd â disgwyliadau cyson, cydnabyddiaeth a chefnogaeth lles

— wella ymddygiad a chynhwysiant. Mae galluogwyr allweddol yn cynnwys arweinyddiaeth glir, hyfforddiant staff, partneriaethau rhieni a chyfranogiad ystyrion â disgyblion. Mae'r lleoliad yn dangos y gall fframweithiau syml, sy'n cael eu cyfathrebu'n dda, gael effaith gynaliadwy ac eang eu cyrhaeddiad.

Deilliannau grŵp ffocws disgyblionRoedd astudiaeth achos 2 yn cynnwys grŵp ffocws disgyblion a chyfwelwyd pum disgybl o Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr. Mae'r dadansoddiad thematig o ymatebion disgyblion yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr ar eu canfyddiadau o ymddygiad, disgwyliadau'r ysgol. Y themâu allweddol a nodwyd ac a amlinellwyd yw:

Thema A. Diwylliant ysgol cadarnhaol a safonau ymddygiad uchel

a1. Teimladau cadarnhaol am amgylchedd yr ysgol

a2. Balchder yn ymddygiad yr ysgol

a3. Dylanwad yr athro ar ymddygiad

a4. Cydnabyddiaeth a chymhelliant

Thema B. Cynhwysiant a dathlu gwahaniaethau

Thema C. Myfyrio ar ymddygiad ar draws yr ysgol

Thema A: Diwylliant ysgol cadarnhaol a safonau ymddygiad uchel

Disgrifiodd disgyblion yn Ysgol Sant Pedr eu hysgol yn gyson fel amgylchedd diogel a chefnogol lle mae ymddygiad cadarnhaol yn cael ei annog a'i gydnabod. Roedd cael disgwyliadau clir, systemau cymorth teg, a pherthnasoedd cryf ag athrawon yn meithrin ymdeimlad cyffredin o falchder, cymhelliant, a pharch at ei gilydd.

Is-thema a1: Teimladau cadarnhaol am amgylchedd yr ysgol

Mynegodd disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn fodlon â'u hamgylchedd ysgol. Roeddent yn gwerthfawrogi'r cydbwysedd rhwng addysg strwythuredig a chyfleoedd ar gyfer amser rhydd ac ymlacio.

"Dwi'n teimlo'n ddiogel, sy'n beth da. Dwi'n teimlo ein bod yn cael y swm perffaith o addysg, swm da o amser yn rhydd ac yn cael awyr iach."

(Disgybl 1)

"Dwi'n credu bod yr athrawon yn dda iawn, ac mae aelodau'r staff yn wych."

(Disgybl 2)

Is-thema a2: Balchder mewn ymddygiad yn yr ysgol

Sylwodd disgyblion fod ymddygiad ar draws yr ysgol yn gyffredinol gadarnhaol, wedi'i gefnogi gan systemau clir ar gyfer mynd i'r afael â materion pan fyddant yn codi. Nododd disgyblion hefyd broses uwch gyfeirio strwythuredig i reoli gwahanol lefelau o heriau ymddygiad.

"Os yw'n rhywbeth bach ... maen nhw'n cael eu hanfon i ystafell o'r enw'r ystafell fugeiliol, lle maen nhw'n eistedd ac yn myfyrio ar eu gweithredoedd."

(Disgybl 1)

Is-thema 1.3: Dylanwad yr athro ar ymddygiad

Rhoddwyd clod i athrawon am feithrin amgylchedd cadarnhaol ac annog myfyrwyr i wneud eu gorau.

"Mae ein hathrawon yn ei wneud yn lle braf i ddysgu, ac maen nhw'n ein hannog ni".

(Disgybl 3)

Is-thema a4: Cydnabyddiaeth a chymhelliant

Daeth y system wobrwyo i'r amlwg fel cymhelliant sylweddol ar gyfer ymddygiad cadarnhaol. Teimlai disgyblion eu bod yn cael eu calonogi gan gydnabyddiaeth o'u hymdrech a'u cyflawniadau. Soniodd un disgybl hefyd am anogaeth i'r naill a'r llall gyda disgyblion eraill hefyd.

"Ym mlwyddyn pedwar, cefais y dystysgrif hon am fod yn sylwgar ac yn graff...Roedd yn teimlo'n dda iawn."

(Disgybl 1)

"Pan enillais y wobr, fe wnaeth fy ysgogi i ddweud, 'lawn, nawr fy mod i wedi ei hennill, dwi'n ceisio ei hennill eto."

(Disgybl 4)

Thema B: Cynhwysiant a dathlu gwahaniaethau

Roedd disgyblion yn gwerthfawrogi cynhwysiant yr ysgol, yn enwedig ei chydabyddiaeth a'i dathliad o gyflawniadau unigol, gan gynnwys rhai disgyblion ag anghenion ychwanegol.

"Mae yna blentyn yn fy nosbarth i...mae'n artist da iawn. Bob tro mae'n gwneud dyfais newydd...mae pawb yn dechrau clapio."

(Disgybl 2)

"Cwpl o ddiwrnodau yn ôl, [fe] ddysgodd sut i reidio beic. Daeth i'r ysgol a dweud, 'Dwi'n gwybod sut i reidio beic,' a dechreuodd pawb clapio."

(Disgybl 5)

Thema C: Myfyrdodau ar ymddygiad ar draws yr ysgol

Sylwodd disgyblion fod y rhan fwyaf o ymddygiad yn yr ysgol yn dda a bod systemau clir ar waith ar gyfer rheoli problemau.

"Dw i'n meddwl bod gan ein hysgol ni'r ymddygiad gorau yng Nghymru gyfan... Mae ein hathrawon yn ei gwneud hi'n lle braf i ddysgu, ac maen nhw'n ein hannog ni i wneud ein gorau."

(Disgybl 1)

"Mae'r rhan fwyaf o bobl yn yr ysgol yn ymddwyn yn dda, ond mae rhai plant sydd ag eithriadau."

(Disgybl 3)

Astudiaeth Achos 3: Ysgol Hafod Lon

Cefndir / Cyd-destun

Mae Ysgol Hafod Lon yn lleoliad arbenigol dwyieithog yng Ngwynedd, Cymru, sy'n darparu addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc 3 i 19 oed ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan gynnwys anghenion meddygol a

chorfforol cymhleth. Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd meithringar a chynhwysol sy'n blaenoriaethu datblygiad academiaidd, cymdeithasol ac emosiynol pob dysgwr.

Beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda / Nodweddion allweddol arfer

Mae'r ysgol wedi datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin ag ymddygiad sy'n canolbwyntio ar lesiant emosiynol, perthnasoedd cadarnhaol, a chysondeb. Defnyddir Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol ar gyfer yr Ysgol Gyfan (SWPBS) fel y fframwaith allweddol, gan helpu staff i ddeall y rhesymau y tu ôl i ymddygiadau a chymhwyso cymorth rhagweithiol, personol.

Mae technegau arloesol yn cynnwys defnyddio gweithgareddau rheoleiddio synhwyrdd, therapiau ar y safle (gan gynnwys lleferydd ac iaith, therapi galwedigaethol a therapi chwarae), a systemau cyfathrebu gweledol fel PECS a Makaton. Mae'r ysgol hefyd yn blaenoriaethu iechyd meddwl trwy weithgareddau creadigol ac awyr agored, ochr yn ochr â dulliau wedi'u llywio gan drawma i gefnogi gwydnwch emosiynol.

Sut mae'r lleoliad yn rhoi'r arfer ar waith

Mae gan bob disgybl gynllun cymorth unigol wedi'i gynllunio ar y cyd â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae tîm cymorth ymddygiad - sy'n cynnwys staff â hyfforddiant uwch mewn strategaethau ymddygiad, llawer ohonynt ar lefel meistr - yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon a staff cymorth i sicrhau cysondeb. Mae staff yn derbyn dysgu proffesiynol parhaus mewn PBS ac ymarfer sy'n seiliedig ar drawma.

Mae cyfranogiad rhieni yn gryfder allweddol, gyda chyfarfodydd rheolaidd, gweithdai, a sianeli cyfathrebu cryf ar waith. Er gwaethaf eu hanghenion cymhleth, caiff disgyblion eu cefnogi i fynegi eu barn trwy gyfathrebu creadigol a gweledol, gan sicrhau bod eu llais yn helpu i lunio'r amgylchedd dysgu.

Effaith / Deilliannau

Mae staff yn adrodd am well rheoleiddio emosiynol, llai o achosion o waethygu ymddygiad, a mwy o ymgysylltu â dysgu. Mae dysgwyr yn gallu mynegi eu hanghenion yn well, ac mae'r amgylchedd cyson, cefnogol yn cyfrannu at awyrgylch ysgol dawel a pharchus. Mae rhieni'n teimlo'n wybodus ac yn rhan o bethau, gan arwain at fwy o gysondeb rhwng yr ysgol a'r cartref.

Dysgu allweddol / Beth all eraill ei ddysgu

Mae Ysgol Hafod Lon yn dangos sut y gall lleoliadau arbenigol wreiddio PBS a chefnogaeth therapiwtig o fewn dull ysgol gyfan sy'n blaenoriaethu lles emosiynol. Mae ffactorau allweddol yn cynnwys cydweithio aml-asiantaeth cryf, cynllunio personol, ac ymgysylltu ystyrlon â dysgwyr a theuluoedd. Mae model yr ysgol yn tynnu sylw at bwysigrwydd hyblygrwydd, cyfathrebu, ac arbenigedd staff wrth gefnogi disgyblion ag anghenion cymhleth.

Astudiaeth Achos 4: Ysgol Eirias

Cefndir / Cyd-destun

Mae Ysgol Eirias yn ysgol uwchradd fawr wedi'i lleoli ym Mae Colwyn, gyda 1,191 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned amrywiol, gyda 24% o ddysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a 26.1% wedi'u nodi fel Dysgwyr Agored i Niwed, ac mae gan 6% ohonynt Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Mae ethos yr ysgol wedi'i wreiddio'n ddwfn yng ngwerthoedd 'cysylltiad â pherthyn', gyda ffocws clir ar adeiladu perthnasoedd cadarnhaol a dyls rhwng staff, myfyrwyr a theuluoedd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyflawniad academiaidd ond yn rhoi gwerth cyfartal ar les emosiynol a chynhwysiant. Mae arweinwyr yn disgrifio eu diwylliant fel un sy'n ffafrio dull adferol, sy'n seiliedig ar berthnasoedd, sy'n cefnogi disgyblion i lwyddo, hyd yn oed yn wyneb her. Mae meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda disgyblion, teuluoedd ac asiantaethau allanol yn gonglfaen i'r dull hwn.

Beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda / Nodweddion allweddol arfer

Dull ysgol gyfan: Mae Ysgol Eirias wedi datblygu dull ysgol gyfan sy'n rhoi cysylltiad wrth wraidd ymddygiad a chynhwysiant. Anogir staff i "gysylltu cyn iddynt gywiro", gan gymryd amser i ddeall gwraidd ymddygiadau ac ymateb gydag empathi a chysondeb.

Sylfaen Gwerthoedd: Dyma werthoedd yr ysgol: Ymdrech, Cyfranogiad, Parch, Cynhwysiant, Dyhead, a Llwyddo gyda'i gilydd (EIRIAS). Mae'r rhain yn cael eu gwreiddio ar draws pob agwedd ar fywyd yr ysgol – o'r system gwobrwyo disgyblion a chylchoedd adrodd i Ddysgu Proffesiynol staff. Dyfernir pwyntiau

cyflawniad yn benodol mewn perthynas â'r gwerthoedd hyn, gan greu fframwaith cyson ar gyfer ymddygiad, cydnabyddiaeth a disgwyliadau.

Cynhwysoldeb ac amrywiaeth: Mae cynhwysiant ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo trwy fentrau fel Clwb Enfys, man diogel a chefnogol i fyfyrwyr LGBTQ+ ac eraill a allai deimlo eu bod yn cael eu tangynrychioli. Mae'r clwb hwn wedi helpu i adeiladu enw da'r ysgol fel lleoliad croesawgar a chynhwysol. Caiff amrywiaeth a lles hefyd eu hyrwyddo drwy ddarpariaeth feithrin, strategaethau ADY, a grwpiau llais myfyrwyr a rhieni. Mae'r ysgol yn cymryd safbwynt rhagweithiol, gan ddefnyddio cymysgedd o ddata o ansawdd uchel a barn broffesiynol i nodi disgyblion sydd mewn perygl yn gynnar ac ymateb cyn i faterion waethygu.

Sut mae'r lleoliad yn rhoi'r arfer ar waith

Mae Ysgol Eirias wedi datblygu system ysgol gyfan i sicrhau bod egwyddorion yn cael eu gwreiddio mewn arfer a galluogi staff i dreulio eu hamser yn meithrin perthnasoedd a chysylltiadau. Cefnogir staff trwy ddysgu proffesiynol rheolaidd, goruchwyliaeth, a systemau rheoli llinell sy'n pwysleisio cysondeb, myfyrio, a phenderfyniadau sydd wedi'u hangori yng ngwerthoedd a rennir EIRIAS. Mae dysgu proffesiynol yn cynnwys ymarfer sy'n seiliedig ar drawma, addysgeg gynhwysol, osgoi ysgol yn seiliedig ar emosiynol (OYSE) a llythrennedd emosiynol.

Mae Tîm Cynhwysiant pwrpasol yn dod a staff sy'n delio ag ymddygiad, presenoldeb, lles, ADY, ac ymgysylltu â theuluoedd ynghyd o dan un ymbarél. Mae'r strwythur integredig hwn yn caniatáu cyfathrebu cyflym a chynllunio cyfannol sy'n galluogi rhaeadr gwybodaeth ac ymyrraeth gynnar gydlynol yn well.

Mae cynnwys rhieni a'r gymuned yn gonglfaen i ddull ysgol gyfan EIRIAS sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ac sy'n atgyfnerthu'r cysylltiad â'r perthyn ar lefel y teulu. Mae'r ysgol yn cynnal ymweliadau cartref wythnosol, wedi cynnig dosbarthiadau dysgu oedolion mewn partneriaeth â Choleg Menai, ac yn anfon "Bwletin Rhieni" wythnosol. Caiff rhieni eu gweld fel partneriaid ac maent yn aml yn cymryd rhan mewn datrys problemau ar y cyd, cyfarfodydd rheolaidd, a deialog agored trwy gyfarfodydd Llais Rhieni - gan helpu i ailadeiladu ymddiriedaeth i'r rhai sydd wedi cael profiadau negyddol gydag addysg yn y gorffennol.

Mae myfyrwyr hefyd yn chwarae rhan allweddol. Mae dull "Mesur Dysgu" yr ysgol yn helpu dysgwyr i fyfyrio ar eu hymgysylltiad a'u hagweddau, tra bod llais myfyrwyr yn llunio polisïau ymddygiad, systemau gwobrwy, a dylunio cwrwllwm i helpu i sicrhau bod disgyblion yn cyd-lunio polisïau sy'n effeithio arnynt hwy a'u dyfodol. Mae'r ysgol yn treialu strategaethau i gefnogi disgyblion i fyfyrio ar sut mae eu hymddygiad yn cyd-fynd â gwerthoedd ysgol EIRIAS a sut mae'n effeithio ar eraill, gan helpu i feithrin perchnogaeth, dealltwriaeth a chydgyssylltedd.

Effaith / Deilliannau

Mae Ysgol Eirias wedi gweld gwelliannau mesuradwy ar draws ystod o ddangosyddion. Mae presenoldeb wedi codi – yn enwedig ymhlith teuluoedd anoddach eu cyrraedd – diolch i ddull perthynasol, cymorth yn gyntaf yr ysgol o ymgysylltu ac ymdrechion y tîm cynhwysiant i gydweithio â theuluoedd, gan anelu at ddatrys problemau'n adeiladol a lleihau'r angen am sancsiynau ffurfiol.

Yn fwyaf arwyddocaol efallai, mae myfyrwyr a oedd yn flaenorol yn cael trafferth ymgysylltu – oherwydd anghenion cymdeithasol, emosiynol neu niwroamrywiol – bellach yn cael mynediad at ddysgu'n fwy llwyddiannus. Mae disgyblion sy'n trosglwyddo i leoliadau arbenigol yn derbyn cefnogaeth helaeth gan yr ysgol, gan weithio'n agos gyda rhieni ac asiantaethau eraill i sicrhau trosglwyddiad llyfn. Mae teuluoedd yn aml yn rhannu adborth cadarnhaol am eu profiadau ac yn aml yn argymhell yr ysgol i eraill.

Mae staff yn disgrifio ysgol lle mae'r "awyrgylch" yn dawel, yn gadarnhaol, ac yn gynhwysol. Mae ymddiriedaeth a chydweithio rhwng teuluoedd a gweithwyr proffesiynol wedi cynyddu, ac mae myfyrwyr yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu deall a'u cefnogi.

Dysgu allweddol / Beth all eraill ei ddysgu

Mae Ysgol Eirias yn cynnig enghraifft gref o sut y gall ysgolion uwchradd prif ffrwd weithredu dull cefnogi ymddygiad cadarnhaol ysgol gyfan. Mae eu diwylliant cynhwysol wedi'i adeiladu ar werthoedd cyffredin, perthnasoedd, disgwyliadau uchel, a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata. Gyda disgwyliadau cyffredinol clir, cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer y rhai sydd angen mwy, a darpariaeth arbenigol integredig, mae dull haenog yr ysgol yn adlewyrchu'r egwyddorion y mae ymchwil wedi'u dangos yn arwain at

ddiwylliannau galluogi cadarnhaol. Mae arweinwyr yn pwysleisio pwysigrwydd hyblygrwydd, cysondeb, a chael eu “trafferthu’n fwriadol” – mynd yr ail filltir i gefnogi myfyrwyr a theuluoedd. Eu cyngor i eraill? Byddwch yn glir ynghylch gwerthoedd craidd yr ysgol a chysylltwch y rhain â chanlyniadau allweddol, canolbwyntio ar feithrin perthnasoedd cryf rhwng athrawon, disgyblion a theuluoedd, addasu polisïau i ddiwallu anghenion gwirioneddol, a chynnwys pawb — myfyrwyr, staff, a rhieni — yn y gwaith o lunio ysgol sy’n anelu at weithio i bawb. Mae’r ysgol hefyd yn cydnabod bod hon yn broses sy’n esblygu, ac mae’n bwysig cydnabod y bydd brwydrau a heriau parhaus.

Mae Ysgol Eirias yn cynnig enghraifft bwysig o sut y gall ysgolion uwchradd prif ffrwd greu diwylliannau cynhwysol sy’n hyrwyddo cysylltiad, nid rheolaeth. Mae eu llwyddiant yn gorwedd mewn ffocws di-baid ar werthoedd a rennir, perthnasoedd, ymyrraeth gynnar, a chysondeb ysgol gyfan wedi’i fewnosod mewn data da a dysgu proffesiynol cyson i staff. Mae profiad yr ysgol yn dangos bod ymddygiad a dysgu academiaidd yn anwahanadwy - os nad yw disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac wedi’u cynnwys, ni allant ffynnu a dysgu.

Crynodeb astudiaeth achos

Mae’r astudiaethau achos yn dangos sut y gall dulliau ysgol gyfan, ragweithiol a chadarnhaol o ymdrin ag ymddygiad fod yn effeithiol ar draws lleoliadau amrywiol. Er bod pob ysgol yn gwasanaethu poblogaeth wahanol, daeth elfennau cyffredin i’r amlwg a gyfrannodd at lwyddiant.

Roedd pob lleoliad yn pwysleisio addysgu disgwyliadau ymddygiadol yn benodol, ochr yn ochr ag atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol yn gyson. Helpodd y dulliau hyn i adeiladu eglurder, strwythur a dealltwriaeth gyffredin ar draws cymuned yr ysgol.

Chwaraeodd y staff ran ganolog, gan fodelu ymddygiad disgwyliedig a chynnal arferion cyson, tra bod disgyblion yn cael cyfleoedd i gyfrannu at fywyd yr ysgol a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Roedd teuluoedd hefyd yn cymryd rhan weithredol, gan helpu i atgyfnerthu negeseuon cadarnhaol a sicrhau cysondeb rhwng yr ysgol a’r cartref.

Roedd ffocws cryf ar les emosiynol yn cefnogi disgyblion i reoli eu teimladau, meithrin gwydnwch, a datblygu perthnasoedd cadarnhaol. Roedd ysgolion yn

integreiddio lles yn eu harferion dyddiol, gan helpu i greu amgylcheddau tawel a chefnogol.

Yn bwysig, dangosodd pob un o'r tair ysgol ymrwymiad i fyfyrwyr a gwella'n barhaus, gan addasu eu dulliau i ddiwallu anghenion newidiol a sicrhau bod arferion ymddygiad yn parhau i fod yn gynhwysol, yn barchus ac yn effeithiol.

Trafodaeth

Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn tynnu sylw at gymhlethdod atal ac ymateb i ymddygiadau sy'n tarfu ac yn herio mewn ysgolion, yn enwedig yn sgil pandemig COVID-19. Mae'r cynnydd sylweddol mewn heriau ymddygiadol yn pwysleisio'r angen brys am ddull rhagweithiol a chyson o greu amgylcheddau ysgol gadarnhaol sy'n lleihau'r risg o ymddygiad sy'n herio ar draws ein hysgolion. Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at bwysigrwydd meithrin diwylliant ysgol gadarnhaol a chynhwysol, lle mae lles cymdeithasol ac emosiynol a rheoli ymddygiad yn rhan annatod o ddull ysgol gyfan yr ysgol.

Mae tystiolaeth o'r adolygiad o ganllawiau arfer gorau yn tynnu sylw at werth dulliau ysgol gyfan, fel Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol Ysgol Gyfan (SWPBS) ar gyfer hyrwyddo ymddygiadau cymdeithasol a lliniaru aflonyddwch ar draws ysgolion. Mae'r strategaethau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd meithrin perthnasoedd cryf, mabwysiadu polisïau cyson, a chynnwys pob aelod o gymuned yr ysgol — gan gynnwys staff, rhieni a disgyblion — wrth greu amgylcheddau dysgu cefnogol a meithringar.

Amlygodd yr adolygiad hwn o ganllawiau hefyd arfer gorau ar lefel ystafell ddosbarth gan bwysleisio: addysgu disgwyliadau clir, cadw myfyrwyr ar dasg, cynnal rhyngweithio cadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion, ymateb heb orfodaeth i ymddygiad aflonyddgar a heriol, cefnogi dysgwyr sy'n ymgysylltu ag ymddygiadau sy'n tarfu ac yn herio yn yr amgylchedd dysgu cynradd, osgoi trapiau sy'n gwaethygu ymddygiad problemus, a rheoli ymddygiad gan ddefnyddio egwyddorion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae yna berthynas allweddol hefyd o ran cysondeb ar lefel yr ystafell ddosbarth a'r hyn a gefnogir ar draws yr ysgol.

Roedd canfyddiadau'r adolygiad cyflym yn atgyfnerthu pwysigrwydd canolog dulliau ysgol gyfan fel sylfaen ar gyfer hybu ymddygiad cadarnhaol a lleihau aflonyddwch. Dangosodd yr astudiaethau ansawdd uchaf yn gyson fod ymyriadau a oedd yn ymgorffori disgwyliadau ymddygiad clir, addysgu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol yn rhagweithiol, a systemau atgyfnerthu cyson wedi arwain at welliannau yn hinsawdd yr ysgol a gostyngiad mewn ymddygiadau sy'n tarfu ac yn herio. Roedd llawer o raglenni effeithiol yn cyfuno egwyddorion ymddygiad gyda chysondeb ysgol gyfan, ymrwymiad arweinwyr, a datblygiad staff, gan alinio'n agos ag egwyddorion dulliau ysgol gyfan.

Fodd bynnag, tynnodd yr adolygiad sylw hefyd at ddiffyg gwerthusiadau cadarn yn y DU a thystiolaeth gyfyngedig ar weithredu o fewn cyd-destunau Cymru. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am ymchwil a gwerthuso pellach o fframweithiau ysgol gyfan sydd wedi'u haddasu'n ddiwylliannol ac yn gyd-destunol i anghenion penodol ysgolion yng Nghymru. Mae'r adolygiad yn cefnogi'r achos dros fuddsoddi mewn darpariaeth gyffredinol fel platfform ataliol ar gyfer cymorth cynaliadwy a chyfartal i ddysgwyr.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid ar draws y cyfweiliadau lled-strwythuredig a'r grwpiau ffocws yn gyson gymhlethdod ac amlder cynyddol ymddygiadau sy'n heriol, yn enwedig yn dilyn y pandemig. Disgrifiodd y cyfranogwyr gynnydd sylweddol mewn cam-reoleiddio emosiynol, aflonyddwch lefel isel, ac anawsterau gyda rhyngweithio â chyfoedion — sy'n aml yn gysylltiedig â phryderon lles ehangach, profiadau plentynod niweidiol, ac anghenion dysgu ychwanegol heb eu diwallu.

Dywedodd llawer o staff ysgolion eu bod yn teimlo nad ydynt wedi paratoi'n ddigonol neu nad oes ganddynt ddigon o adnoddau i ymateb yn effeithiol, gan amlygu'r angen am fwy o hyfforddiant, amser, a chapasiti ysgol gyfan i ymgorffori dulliau perthynol ac ataliol. Er y nodwyd enghreifftiau cadarnhaol o arfer — yn enwedig lle'r oedd cymorth ymddygiad wedi'i wreiddio mewn fframweithiau llesiant ehangach — disgrifiodd cyfranogwyr yn aml ddiwylliant adweithiol a luniwyd gan lefelau uchel o straen ymhlith staff, pwysau gwaharddol, a llai o fynediad at gymorth arbenigol. Roedd y dystiolaeth yn tynnu sylw at awydd cryf am strategaethau perthynol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac ar draws y system, ond hefyd angen dybryd am fuddsoddiad, eglurder a chysondeb mewn polisi ac arfer.

Mae'r astudiaethau achos yn dangos ymhellach sut y gall gweithredu ymyriadau wedi'u teilwra — boed drwy gryfhau fframweithiau ymddygiad cyffredinol neu ddarparu cefnogaeth dargedig i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol — arwain at welliannau ystyrlon mewn canlyniadau pan gânt eu cyflwyno gyda ffyddlondeb ac ymrwymiad parhaus. Mae enghreifftiau a dynnwyd o ystod o leoliadau, gan gynnwys darpariaethau cynradd, uwchradd ac arbenigol, amlygu sut mae arfer effeithiol yn cael ei nodweddu gan bwyslais cryf ar dulliau perthynol, cysondeb ysgol gyfan, ac addasu cyd-destunol. Adroddodd ysgolion a wreiddiwyd yn llwyddiannus strategaethau ymddygiad

cyffredinol a rhagweithiol, am amgylcheddau dysgu mwy tawel a mwy cynhwysol, a nododd y rhai a ddatblygodd gynlluniau cymorth aml-asiantaeth pwrpasol ar gyfer dysgwyr unigol ymgysylltiad gwell, gostyngiadau mewn ymddygiadau sy'n tarfu ar neu'n herio, a gwell effeithiolrwydd staff. Ar draws cyd-destunau addysgol amrywiol, roedd nodweddion cyffredin arfer effeithiol yn cynnwys ffocws clir ar adnabod yn gynnar, cynllunio cydweithredol yn cynnwys teuluoedd, dysgu proffesiynol cadarn i staff, ac arweinyddiaeth a oedd yn blaenoriaethu diwylliannau ysgol feithringar a chynhwysol. Mae'r canfyddiadau hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd mabwysiadu dulliau hyblyg, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n ymatebol i anghenion penodol pob cymuned ysgol.

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn atgyfnerthu'r rôl hanfodol y mae rheolaeth fedrus yn yr ystafell ddosbarth a chreu amgylcheddau cadarnhaol, perthynol yn ei chwarae wrth atal ac ymateb i ymddygiadau sy'n tarfu ac yn herio. Thema gyson sy'n dod i'r amlwg o'r dystiolaeth yw nad yw cefnogaeth ymddygiad o ansawdd uchel yn dechrau gyda strategaethau adweithiol, ond gyda gallu athrawon i sefydlu hinsawdd ystafell ddosbarth diogel, strwythuredig a meithringar lle mae disgwyliadau'n glir, perthnasoedd yn gryf, ac ymddygiadau cymdeithasol yn cael eu haddysgu a'u hatgyfnerthu'n weithredol. Mae'r sgiliau hyn yn hanfodol i leihau aflonyddwch, cefnogi cynhwysiant, a hyrwyddo lles dysgwyr. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gyfredol yn awgrymu bod llawer o athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa yn teimlo nad ydynt wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer gofynion ymddygiad ystafelloedd dosbarth modern, yn enwedig yn sgil y pandemig a dwysáu anghenion dysgwyr. Mae ymgorffori hyfforddiant cadarn, ymarferol mewn rheoli ystafell ddosbarth, atal ymddygiad, ac arfer perthynol mewn rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA), a sicrhau bod y sgiliau hyn yn cael eu datblygu ymhellach yn ystod Sefydlu statudol, yn gyfle hollbwysig i gryfhau cymhwysedd a gwydnwch proffesiynol cynnar. Mae cefnogaeth dargedig yn ystod camau cynnar gyrfaedd athrawon yn debygol o gael effaith hirdymor sylweddol ar amgylcheddau ystafell ddosbarth, ymgysylltiad dysgwyr, a chadw athrawon (Egan et al., 2025).

Thema gyson ar draws y dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yw'r gydberthynas gref rhwng ymgysylltu â dysgu, cyflawniad academiaidd — yn enwedig mewn llythrennedd sylfaenol a darllen — a chyffredinolrwydd ymddygiadau heriol. Mae nifer o astudiaethau achos a chyfweliadau â rhanddeiliaid yn tynnu sylw at y rôl y mae llwyddiant darllen cynnar yn ei chwarae wrth lunio hyder, hunanreoleiddio a gallu dysgwr i gymryd rhan yn

ystyrlon ym mywyd yr ysgol. Mae anawsterau wrth gaffael llythrennedd — yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar — nid yn unig yn rhwystr i gyrchu'r cwricwlwm ond gallant hefyd amlygu fel rhwystredigaeth, osgoi, neu ymddygiad aflonyddgar yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r berthynas hon wedi'i hen sefydlu yn y llenyddiaeth ymchwil, gan gynnwys canfyddiadau'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (Llywodraeth Cymru, 2008), a amlygodd llythrennedd isel fel rhagfynegydd allweddol o ymddygiad gwael ac ymddieithried. Mae ysgolion sy'n ymgorffori dulliau strwythuredig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer darllen cynnar — fel y rhai sydd wedi'u seilio ar y Simple View of Reading a Scarborough's Reading Rope — mewn gwell sefyllfa i hyrwyddo ymgysylltiad, lleihau anawsterau ymddygiadol, a chefnogi diwylliant o gyflawniad. Mae'r goblygiad ar gyfer ymarfer yn glir: rhaid i wella canlyniadau i ddysgwyr ag ymddygiadau sy'n herio gynnwys ffocws cadarn ar addysgu llythrennedd cynnar, cynaliadwy a systematig fel ymyrraeth academiaidd ac ymddygiadol.

Yn y pen draw, mae'r astudiaeth hon yn tynnu sylw at yr angen am fuddsoddiad cynaliadwy mewn arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, dysgu proffesiynol, ac ymchwil a gwerthuso sydd wedi'u teilwra i'r cyd-destun Cymreig. Bydd mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy ddulliau ysgol gyfan yn helpu i feithrin amgylcheddau cynhwysol a meithringar sy'n hyrwyddo lles a llwyddiant academiaidd i bob dysgwr ac yn gweithio i leihau'r risg o ymddygiadau sy'n tarfu ac yn herio.

Cyfngiadau

Cyfngwyd yr adolygiad cyflym o dystiolaeth i linell amser benodol i gyd-fynd â therfynau llinell amser yr ymchwil. Er ei fod yn cynrychioli chwiliad systematig o'r brif gronfa ddata tystiolaeth yn y maes hwn, nid oedd adolygiad systematig llawn o ymchwil effeithiolrwydd yn bosibl. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r astudiaethau a ddewiswyd hefyd gyda disgyblion cynradd neu elfennol, gyda dim ond un gyda disgyblion oedran uwchradd yn unig. Mae hyn yn golygu mai dim ond i leoliadau cynradd y mae'r crynodeb effeithiolrwydd yn berthnasol mewn gwirionedd ac mae angen ymchwil bellach yn y sector uwchradd.

Un cyfngiad ar elfen ansoddol y prosiect oedd y nifer fach o ddisgyblion a gymerodd ran. Roedd y grŵp ffocws dysgwyr yn gyfyngedig o ran maint ac yn dod o un ysgol astudiaeth achos, a allai gyfyngu ar gyffredinolrwydd y canfyddiadau. Er bod y safbwyntiau a rannwyd yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i brofiadau dysgwyr, byddai ymgynghoriad ehangach â disgyblion ar draws sampl mwy amrywiol o leoliadau yn fuddiol mewn ymchwil yn y dyfodol.

Mae cyfngiad pellach yn ymwneud â chyd-destun yr astudiaethau achos ansoddol a chyfweliadau ymarferwyr. Er eu bod yn cynnig enghreifftiau pwysig o arfer effeithiol, roedd y cyfranogwyr yn dod yn bennaf o leoliadau a oedd wedi gwirfoddoli i rannu enghreifftiau. O'r herwydd, gall y canfyddiadau adlewyrchu rhywfaint o ragfarn arfer gadarnhaol ac efallai na fyddant yn dal profiadau ysgolion sy'n wynebu heriau mwy sefydledig yn llawn.

Er bod yr adroddiad yn nodi ystod o fframweithiau a strategaethau wedi'u llywio gan dystiolaeth, roedd y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth i archwilio'n systematig y rhwystrau ymarferol i weithredu ar draws gwahanol gyd-destunau, megis pwysau llwyth gwaith, cyfngiadau adnoddau, neu amrywiadau yn arbenigedd staff. Dylai ymchwil yn y dyfodol archwilio'r ffactorau hyn yn fanylach er mwyn cefnogi datblygiad ymarfer graddadwy a chynaliadwy ar draws system addysg Cymru.

Argymhellion

a) Diweddaru ac ehangu canllawiau cenedlaethol

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ac ehangu canllawiau cenedlaethol i gefnogi ysgolion. Dylai hyn gynnwys:

- Canllawiau ar fframweithiau effeithiol sy'n gweithio i adeiladu diwylliannau ysgol gadarnhaol, fel Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol Ysgol Gyfan (SWPBS), gan bwysleisio strategaethau rhagweithiol, datblygu perthnasoedd, a dulliau ysgol gyfan i feithrin cysondeb a chynhwysiant.
- Dylid adolygu a diweddaru canllawiau ar arfer ystafell ddosbarth effeithiol i adlewyrchu'r cyd-destunau ôl-covid mewn ysgolion, a'r sgiliau sydd eu hangen ar athrawon i greu amgylchedd ystafell ddosbarth cadarnhaol a chynhwysol.
- Effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) a ffactorau cyd-destunol eraill wrth ddatblygu polisïau ymddygiad, gan sicrhau eu bod yn ymatebol i anghenion eu cymunedau.
- Adnoddau ymarferol ar gyfer timau arwain, canllawiau ar gyfer nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg yn gynnar, a chysylltiadau clir â fframweithiau lles ysgol gyfan (e.e., WSAEMW, ALNET).
- Canllawiau ar raglenni dysgu cymdeithasol ac emosiynol (DCE) strwythuredig i ddatblygu llythrennedd emosiynol, gwydnwch a sgiliau perthynas yn systematig ar y lefel gyffredinol (Haen 1).
- Dylai canllawiau annog modelau rheoli ymddygiad dim goddefgarwch, cosbol, a modelau rheoli ymddygiad sy'n hynod orfodol, sy'n anghyson â'r sail dystiolaeth gyfredol ac yn tueddu i annog ymddieithrio.

b) Gwella dysgu proffesiynol i athrawon ac arweinwyr

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen ddysgu broffesiynol genedlaethol i athrawon ac arweinwyr sy'n cynnwys:

- Ffocws ar fframweithiau ymddygiad ysgol gyfan (megis SWPBS), gan gynnwys ffocws ar adeiladu perthnasoedd a dulliau adferol.
- Blaenoriaethu strategaethau ystafell ddosbarth ymarferol, dad-ddwysáu sy'n seiliedig ar drawma, a thechnegau perthynas cynhwysol.

- Gwreiddio cyfleoedd ar gyfer goruchwyliaeth adfyfyriol reolaidd neu hyfforddiant i gefnogi lles a gwydnwch athrawon.
- Cryfhau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) a rhaglenni Sefydlu trwy wreiddio hyfforddiant strwythuredig, yn seiliedig ar dystiolaeth, ar reoli ystafell ddosbarth, fframweithiau ymddygiad cadarnhaol, a chreu amgylcheddau anogol.
- Sicrhau bod athrawon sydd ar ddechrau eu gyrfa yn cael eu cefnogi i ddatblygu sgiliau ymarferol a pherthnasol mewn atal ymddygiad a dad-ddwysáu fel elfen graidd o gymhwysedd proffesiynol.

c) Cryfhau dulliau addysgu lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar er mwyn atal heriau ymddygiad diweddarach

Dylai llywodraeth Cymru dynnu sylw at y berthynas rhwng sgiliau cyfathrebu cynnar ac ymddygiad cadarnhaol. Dylai hyn gynnwys:

- Dealltwriaeth glir a darpariaeth o ddull systematig, seiliedig ar dystiolaeth o addysgu iaith gynnar a darllen, gan roi'r cyfle gorau posibl i bob dysgwr ddatblygu sgiliau llythrennedd cadarn a gweithredol erbyn diwedd yr ysgol gynradd.
- Cydnabod anawsterau llythrennedd cynnar fel ffactor risg allweddol ar gyfer ymddieithrio'n ddiweddarach, ymddygiad heriol, absenoldeb, ac eithrio, a thrin cefnogaeth gynnar fel strategaeth atal academiaidd ac ymddygiadol.
- Sicrhau bod polisiâu ymddygiad a lles yn cyd-fynd â strategaethau llythrennedd cenedlaethol, gyda ffocws penodol ar gefnogi dysgwyr agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai ag ADY.

d) Buddsoddi mewn gwaith ymchwil am effeithiolrwydd yng Nghymru.

Er bod tystiolaeth ryngwladol yn darparu sylfaen gref, mae gwerthuso dichonoldeb ac effeithiolrwydd y fframweithiau hyn yng nghyd-destun diwylliannol ac addysgol penodol Cymru yn hanfodol. Bydd ymchwil o'r fath yn llywio datblygiad polisi, yn nodi arferion gorau, ac yn sicrhau bod ymyriadau'n cael eu teilwra i anghenion lleol. Mae angen i'r ymchwil hon:

- Galluogi astudiaethau hirdymor i weithrediad ac effaith fframweithiau ymddygiad ysgol gyfan yng Nghymru.
- Canolbwyntio ar werthuso cyd-destun, cynaliadwyedd, a chanlyniadau ar gyfer grwpiau amrywiol o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY.
- Annog ysgolion i ddatblygu systemau data rhybuddio cynnar i olrhain aflonyddwch lefel isel, datgysylltiad, ac arwyddion meddal o anhawster emosiynol neu ymddygiadol.
- Hyrwyddo partneriaethau rhwng ysgolion a SAUau i gyd-ddatblygu strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi'u seilio ar brofiad ystafell ddosbarth go iawn.
- Adeiladu rhwydweithiau ymchwil a chyfoedion sy'n agos at ymarfer i gefnogi twf proffesiynol myfyriol.

e) Gwella cefnogaeth i deuluoedd

- Cryfhau partneriaethau rhwng yr ysgol a'r teulu drwy gynnig gweithdai, hyfforddiant ac adnoddau hygyrch i rieni/gofalwyr ar hyfforddiant emosiynol, cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol a chysondeb rhwng yr ysgol a'r cartref.
- Ymgorffori cefnogaeth i deuluoedd fel llinyn allweddol o fodelau ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

f) Mynd i'r afael â lles a'i hyrwyddo drwy feithrin amgylcheddau ysgol

- Cefnogi mabwysiadu dulliau ysgol gyfan sy'n datblygu llythrennedd emosiynol, rheoleiddio emosiynol a sgiliau perthynas disgyblion yn benodol fel rhan o Gwricwlwm Cymru.
- Cydnabod bod newid ymddygiad yn fwyaf cynaliadwy pan gaiff lles a sgiliau emosiynol eu meithrin yn systematig ac yn gyffredinol.

g) Darparu cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer ysgolion uwchradd

Darparu canllawiau ac adnoddau wedi'u teilwra i fynd i'r afael â'r heriau unigryw y mae ysgolion uwchradd yn eu hwynebu. Dylai hyn gynnwys:

- Cefnogi timau arweinyddiaeth i sicrhau cysondeb ysgol gyfan wrth ddatblygu amgylcheddau dysgu cadarnhaol.
- Annog arferion adferol i gryfhau perthnasoedd a datrys gwrthdaro mewn ffordd adeiladol gyda staff a dysgwyr.
- Cefnogi cynllunio trawsnewid strwythuredig rhwng cyfnodau.
- Ehangu rhaglenni mentora cyfoedion ac arferion adferol.
- Datblygu timau cymorth bugeiliol arbenigol i fynd i'r afael ag arwyddion cynnar o ymddieithrio.

h) Cyflogi arbenigwyr ymddygiad ym mhob Awdurdod Lleol

Dylai pob ALI benodi arbenigwyr ymddygiad a all:

- Cefnogi ysgolion i ddylunio a gweithredu fframweithiau ymddygiad rhagweithiol a chynhwysol.
- Cyflwyno DPP a hyfforddiant ar arferion ysgol gyfan, sy'n seiliedig ar drawma ac arferion perthynol.
- Cynorthwyo ag ymyrraeth gynnar sy'n seiliedig ar ddata a chynllunio cymorth pwrpasol ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth.
- Hwyluso cymunedau ymarfer ar draws ysgolion lleol i rannu dulliau effeithiol.

Cyfeirnodau

Acocella, I. (2012). The focus groups in social research: advantages and disadvantages. *Quality & Quantity*, 46, pp.1125-1136. DOI: [Link to The focus groups in social research: advantages and disadvantages.](#)

BERA (2024). Ethical Guidelines for Educational Research, fifth edition (2024). Available at: [Link to Ethical Guidelines for Educational Research, fifth edition \(2024\).](#)

Biglan, A., Flay, B. R., Embry, D. D., & Sandler, I. N. (2012). The Critical Role of Nurturing Environments for Promoting Human Wellbeing. *American Psychologist*, 67(4), 257–271. DOI: [Link to The Critical Role of Nurturing Environments for Promoting Human Wellbeing.](#)

Blatchford, P., Bassett, P. and Brown, P. (2011). Examining the effect of class size on classroom engagement and teacher–pupil interaction: Differences in relation to pupil prior attainment and primary vs. secondary schools. *Learning and Instruction*, 21(6), pp.715–730. DOI: [Link to Examining the effect of class size on classroom engagement and teacher–pupil interaction.](#)

Blewitt, C., O'Connor, A., Morris, H., May, T., Mousa, A., Bergmeier., H., Nolan, A., Jackson, K., Barrett, H. and Skouteris, H. (2019). A systematic review of targeted social and emotional learning interventions in early childhood education and care settings. *Early Child Development and Care*, 191(14), pp.2159-2187. DOI: [Link to A systematic review of targeted social and emotional learning interventions in early childhood education and care settings.](#)

Bonell, C., Allen, E., Warren, E., McGowan, J., Bevilacqua, L., Jamal, F., Legood, R., Wiggins, M., Opondo, C., Mathiot, A., Sturgess, J., Fletcher, A., Sadique, Z., Elbourne, D., Christie, D., Bond, L., Scott, S. and Viner, R. (2018). Effects of the Learning Together intervention on bullying and aggression in English secondary schools (INCLUSIVE): a cluster randomised controlled trial. *The Lancet*, 392(10163), pp.2452-2464. DOI: [Link to Effects of the Learning Together intervention on bullying and aggression in English secondary schools \(INCLUSIVE\): a cluster randomised controlled trial.](#)

Bowes, L., Joinson, C., Wolke, D. and Lewis, G. (2015). Peer victimisation during adolescence and its impact on depression in early adulthood: prospective cohort study in the United Kingdom. *BMJ*, 350, pp.1-9. DOI: [Link to](#)

Peer victimisation during adolescence and its impact on depression in early adulthood: prospective cohort study in the United Kingdom.

Bradshaw, C., Mitchell, M. and Leaf, P. (2010). Examining the Effects of Schoolwide Positive Behavioral Interventions and Supports on Student Outcomes. Results From a Randomized Controlled Effectiveness Trial in Elementary Schools. *Journal of Positive Behavior Interventions*, 12(3), pp.133-148. DOI: [Link to Examining the Effects of Schoolwide Positive Behavioral Interventions and Supports on Student Outcomes. Results From a Randomized Controlled Effectiveness Trial in Elementary Schools.](#)

Bradshaw, C., Waasdorp, T. and Leaf, P. (2012). Effects of School-Wide Positive Behavioral Interventions and Supports on Child Behavior Problems. *Pediatrics*, 130(5), pp.1136-1145. DOI: [Link to Effects of School-Wide Positive Behavioral Interventions and Supports on Child Behavior Problems .](#)

Braun, V. and Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. *Qualitative research in psychology*, 3(2), pp.77-101. DOI: [Link to Using thematic analysis in psychology.](#)

Brown, V., Clery, E. and Ferguson, C. (2011). Estimating the prevalence of young people absent from school due to bullying. *Nat Centre Soc Res*, 1, pp.1-61. DOI: [Link to Estimating the prevalence of young people absent from school due to bullying.](#)

Bronfenbrenner U. (1977). Toward an experimental ecology of human development. *American Psychologist*. 32,(7) 513–531. DOI: [Link to Toward an experimental ecology of human development.](#)

Caldarella, P., Shatzer, R.H., Gray, K.M., Young, K.R. and Young, E.L. (2011). 'The effects of school-wide positive behavior support on middle school climate and student outcomes'. *Research in Middle Level Education*, 35(4), pp.1–14. DOI: [Link to 'The effects of school-wide positive behavior support on middle school climate and student outcomes'.](#)

Children's Commissioner for England. (2020). Injustice or in justice: Children in the criminal justice system. Available at: [Link to Injustice or in justice: Children in the criminal justice system.](#)

Comisiynydd Plant Cymru (2022) Canlyniadau Arolwg 'Coronafeirws a Fi'. Ar gael yn: [Dolen i: Canlyniadau Arolwg 'Coronafeirws a Fi'.](#)

Clarkson, S., Charles, J. M., Saville, C. W., Bjornstad, G. J. and Hutchings, J. (2019). Introducing KiVa school-based antibullying programme to the UK: A preliminary examination of effectiveness and programme cost. *School psychology international*, 40(4), pp.347-365. DOI: [Link to Introducing KiVa school-based antibullying programme to the UK: A preliminary examination of effectiveness and programme cost.](#)

Cogan, O., Gillard, D., Anderson, B., Hopkins, S., Hulson-Jones, A., & Hughes, C. (2025). *Supporting young people at risk of school exclusion through Acceptance and Commitment Therapy (ACT) and allied models: A new service model and case study example*. *Educational & Child Psychology*, 42(1), 94–111.

Crowe, S., Cresswell, K., Robertson, A., Huby, G., Avery, A. and Sheikh, A. (2011). The case study approach. *BMC Medical Research Methodology*, 11(1), pp.100-108. DOI: [Link to The case study approach.](#)

Department for Education (2023). National Behaviour Survey Academic Year 2022 to 2023 Report. Available at: [Link to National Behaviour Survey Academic Year 2022 to 2023 Report.](#)

Education Endowment Foundation (EEF) (2021). *Improving behaviour in schools: Guidance report*. Available at: [Link to Improving behaviour in schools: Guidance report.](#)

Education Endowment Foundation (2023) *The Impact of the COVID-19 Pandemic on Children's Socioemotional Wellbeing and Attainment during the Reception Year*. Available at: [Link to The Impact of the COVID-19 Pandemic on Children's Socioemotional Wellbeing and Attainment during the Reception Year.](#)

Egan, D., Attfield, K., Rees Davies, L., Young, K., Bristow, E. a Farrell, C. (2024). Proffesiwn Addysgu'r Dyfodol i Gymru: Recriwtio, Cadw a Chynnydd Proffesiynol. Adroddiad cychwynnol i Lywodraeth Cymru. Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Ar gael yn: [Dolen i Proffesiwn Addysgu'r Dyfodol i Gymru: Recriwtio, Cadw a Chynnydd Proffesiynol. Adroddiad cychwynnol i Lywodraeth Cymru. Prifysgol Metropolitan Caerdydd.](#)

Ford, T. (2014). The relationship between exclusion from school and mental health: a secondary analysis of the British Child and Adolescent Mental Health Surveys 2004 and 2007. *Psychological Medicine*, 44(3), pp.513-524. DOI: [Link](#)

to The relationship between exclusion from school and mental health: a secondary analysis of the British Child and Adolescent Mental Health Surveys 2004 and 2007.

Gaffney, H., Ttofi, M. M. and Farrington, D. P. (2019). Evaluating the effectiveness of school-bullying prevention programs: An updated meta-analytical review. *Aggression and violent behavior*, 45, pp.111-133. DOI: [Link to Evaluating the effectiveness of school-bullying prevention programs: An updated meta-analytical review.](#)

Gage, N., Grasley-Boy, N., George, H., Childs, K. and Kincaid, D. (2019). A Quasi-Experimental Design Analysis of the Effects of School-Wide Positive Behavior Interventions and Supports on Discipline in Florida. *Journal of Positive Behavior Interventions*, 21(1), pp.50-61. DOI: [Link to A Quasi-Experimental Design Analysis of the Effects of School-Wide Positive Behavior Interventions and Supports on Discipline in Florida.](#)

